



Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf



*Cariad o beth
Cardi Bach*

Rhifyn 434

Medi 2022

Pris £1

Eisteddfod Genedlaethol Tregaron



Llongyfarchiadau mawr i Parti'r Gromlech ar ei buddugoliaeth
yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion gynhaliwyd yn Nhregaron ar ddechrau mis Awst.



EISTEDDFOD Ceredigion 2022

Llongyfarchiadau mawr i
Siôn Jenkins o
Llandysilio a fu'n
fuddugol yng
Nghystadleuaeth Gwobr
Goffa Llwyd o'r Bryn, yn
Eisteddfod Genedlaethol
Ceredigion 2022.



Pwysig!

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol
Agored o'r Cardi Bach
prynhawn Sul, Hydref 30ain,
2022 am 4 o'r gloch yng
Nghanolfan Hywel Dda,
Hendy-gwyn.

Mae'n gyfarfod pwysig a
gofynnir yn garedig am
bresenoldeb gohebwyrr lleol
ac unrhyw un â diddordeb yn
nyfodol y papur. Mae angen
gwirfoddolwyr i helpu gyda
hysbysebion Nadolig.

Y CARDI BACH

Golygydd,	Eurfyl Lewis
Cadeirydd a	
Dosbarthwr	01994 419495
Is-gadeirydd:	Iola Wyn
	07870 100831
Ysgrifennydd:	Beti Wyn James
	01994 230966
Trysorydd,	
Ffotograffydd,	
Dosbarthwr	
drwy'r post a	Roy Llewellyn
Hysbysebion:	01994 448283
Trysorydd y	Rhian White
Clwb '200':	01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen
	Evans
	01994 448447
Cystadleuaeth	John Arfon Jones
	01994 240536
Cornel y	Albie Abbott
Dysgwyr::	01239 831641
Tudalen y Plant:	Llinos Mair Thomas
Llewyrch i'm Llwybr:	Eurfyl Lewis
Cornel Coginio:	Winnie James
	01239 831754
Cornel Llên:	Nansi Evans
	01994 448392
Cornel Garddio:	John Davies
	01994 240059

Newyddion, Lluniau, Erthyglau
a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
Cwmfelin Mynach, Hendygywn-ar-
Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
o angenrheidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn a
gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru'.

Colofn y Mis

gan Iola Wyn, San Cler

Wrth i mi ysgrifennu'r erthygl hon, mae Liz Truss wedi cael ei hethol yn Brif Weinidog Y Deyrnas Unedig. Hi yw'r unfed ar ddeg i gael allwedd Rhif Deg Downing Street ers fy nghyfnod i ar y ddaear hon.

Roeddwn i'n rhy ifanc i gofio'r ddau brif weinidog cyntaf ar ddechrau'r 70au sef Edward Heath a Harold Wilson. Y Cymro o Gaerdydd, James Callaghan yw'r Prif Weinidog rwy'n ei gofio gyntaf. Fe fu wrth y llyw am 3 blynedd. Cafodd Margaret Thatcher 11 mlynedd yn Downing Street, ac fe dreuliodd Tony Blair ddegawd yno. Ond yn y blynyddoedd diweddaraf, Larry'r gath yw preswlydd hynaf Rhif Deg, ac wedi gwasanaethu yno am yr un cyfnod â Margaret Thatcher. A thros yr 11 mlynedd diwethaf, mae e wedi cyd-fyw â David Cameron, Theresa May, Boris Johnson a bellach Liz Truss.

Ry'n ni yn sicr wedi gweld tipyn o fynd a dod yn y blynyddoedd diwethaf, gyda Theresa May a Boris Johnson yn para tair blynedd – a phedwar prif weinidog yn Downing Street ers 2016.

Ac mae pob prif weinidog wrth reswm wedi profi heriau, ond go brin fod yr un gwleidydd arall wedi cyrraedd ar adeg mor argyfyngus, gydag oriau, nid misoedd i amlinellu ei chynlluniau i fynd i'r afael â'r argyfwng presennol.

Costau byw yw'r brif her, ac mae'r cynnydd ym miliau ynni yn mynd i effeithio ar bawb, a hynny mewn cyfnod lle mae banciau bwyd eisoes yn lluosogi yn ein rhanbarth ni. A bellach ry'n ni'n dechrau clywed yr alwad am fanciau cynnes hefyd, sef lleoliad i bobl gadw'n gynnes os yn gorfod dewis rhwng bwyd neu wresogi eu cartref dros gyfnod y gaeaf.

Mae'r haf poeth wedi'n galluogi i gynilo a defnyddio llai o danwydd i gynhesu'n cartrefi. Ond wrth gwrs, mae sychder yn gur pen yn ystod tywydd crasboeth, a goblygiadau hynny yn amlwg iawn yn ardal Y Cardi Bach gyda gwaharddiad i nifer ohonom ar ddefnyddio pibelli i ddyfrhau'n gerddi a golchi'n ceir. Mae gweld cyflwr Llyn Brianne ym mhen arall Sir Gaerfyrddin ac olion hen ffermdy Y Fanog yn dod i'r golwg yn arwydd eto bod y blaned angen cymorth, union yr un fath â'i thrigolion ar hyn o bryd.

Ac wrth gwrs, mewn cyfnod o angen a cheiniogau'n brin, mae elusennau yn sicr o ddioddef. Felly mae'r pethau bychain y gall pawb eu gwneud yn bwysicach nawr nag erioed. Mae pandemig Covid - 19 wedi ein dysgu am yr angen i wirio fod pawb o'n hamgylch yn ymdopi. Mae'r angen hwnnw yn bwysicach nawr nag erioed.

NOSON I GOFIO AM

Undeg

Nos Wener, Hydref 7^{fed} 2022
Gwesty Nantffyn, Llandysilio.
am 7.30 yh.

Yr Artistiaid bydd
Dafydd Iwan a'r Band • Clive Edwards
Sioned Llewellyn • Angharad James

TOCYN - £15
Elw yn mynd tuag at
Ymatebydd Cyntaf Crymch a Cronfa Ifan Phillips

Dalier sylw. Mae tocynnau'r cyngerdd
uchod wedi eu gwerthu i gyd a ni fydd
rhagor ar gael.

Fferyllfa
Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich
presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

GOHEBWYR LLEOL

ALMA:	Margaret Evans 01994 230761
BANCYFELIN:	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
CAPEL BANCYFELIN a CANA	Parch, Beti-Wyn James beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN:	Tegwen James 01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
CEFNYPANT:	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN:	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH:	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
CWMFELIN	Nansi Evans
MYNACH:	01994 448392
EFAILWEN:	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN:	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN:	Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com
(Newyddion Tabernacl)	Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG:	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
LLANBOIDY:	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO:	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN:	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
LLANGYNIN:	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@goolemail.com
MEIDRIM:	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
PENYBONT:	Linda Davies 01994 484657 lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID:	Doreen Adams 01994 240581
RHYDWILYM:	Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
TRELECH:	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

LLEWYRCH I'M LLWYBR*gan Tudur Dylan Jones***Llusern i'n Llwybr**

Ar wefan y Cardi Bach, mae'n nodi bod y papur yn gwasnaethu'r llefydd canlynol: Alma, Arberth, Bancyfelin, Blaenwaun, Cefnypant, Clunderwen, Cwmbach, Cwm Miles, Cwmfelin Mynach, Efailwen, Gelliwen, Hendy Gwyn, Henllan

– fallteg, Login, Llanboidy, Llandysilio, Llanglydwen, Llangynin, Meidrim, Penybont, Pwlltrap, Rhydyceisiaid, Rhydwylym, San Cler a Trelech. Dyma i chi gyfoeth o lefydd, pob un â'i hanes

a'i phobl unigryw ei hun, pob un yn cynnwys adeiladau hynod a llwybrau gwerth eu troedio. Ond mae un peth yn gyffredin i bob un, fel pob un tref a phentref trwy Gymru a thu hwnt, sef bod arwydd yn nodi enw'r lle wrth i chi gyrraedd.

Mae'r arwyddion hyn i gyd yn weddol debyg i'w gilydd. Fel mae'n digwydd, mae'r ddau arwydd yn yr erthygl hon â chefnidir glas a llythrennau gwynion, a'r ddau arwydd yn ein hannog i yrru'n ofalus. Ond yr hyn nad ydy'r arwyddion yn ei wneud ydy rhoi hanes y lle, dweud pa fath o bobl sy'n byw yno, beth yw gogonniannau'r lle. Does yr un arwydd yn sôn am yr holl gymwynasau sydd wedi cael eu cyflawni yno. Dim cyfeiriad at yr holl enghreifftiau bychan o garedigrwydd sydd wedi digwydd o fewn ei ffiniau.

Mae'n rhaid i chi fynd heibio i'r arwydd i weld y lle a dod i'w adnabod go iawn, gan gynnwys adnabod y trigolion.

Mae'r un peth yn wir amdanon ni fel pobl. Ar un olwg, mae pawb ohonon ni yr un peth – mae ganddon ni enw – ac mae rhai pobl yn meddwl unwaith ein bod ni'n gwybod enw rhywun, bod hynny'n

golygu ein bod ni'n adnabod y person hwnnw hefyd. Ond na mae'n rhaid i ni fynd heibio i'r enw i ddarganfod y person go iawn.

Pan fyddwn ni'n dod i adnabod lle yn well, mae rhywun yn sylweddoli bod mwy a mwy i'w weld eto o dan yr wyneb – ambell i lwybr nad oedden ni'n gwybod amdano, ambell i gerfiad ar garreg y mae cannoedd wedi mynd heibio iddo heb sylwi arno. Felly hefyd pan fyddwn ni'n dod i adnabod person yn well. Yn sydyn, nid enw ydyw'n unig, mae'n llawer mwy na hynny. Mae'n enaid cymhleth, mae'n ddu a gwyn a llwyd yr un pryd. Mae'n lliwiau'r enfys a llawer mwy. Ac mae'n fwy na phosib y bydd yr adnabyddiaeth honno yn ei thro yn ein cyfoethogi pob un ohonon ni.



CYSTADLEUAETH *gan John Arfon*

Diolch o'r diwedd fod y tywydd ychydig yn fwy cymhedrol ac mae gobaith am ychydig o law cyn bo hir. Er fod haf 1976 wedi bod yn sych ac yn boeth iawn, roedd y tywydd crasboeth eleni yn ormodol ac mae wedi dweud ar gynnyrch y wlad, gyda phawb yn crefu am law. Y perygl yw efallai na fydd stop arni pan ddaw y glaw, ac y bydd stormydd mawr a difrod yn dod i'w ddilyn. Gobeithio na yn wir.

Mor ddigalon oedd clywed fod Swyddfa Bost Hendygywyn wedi cau. Os na fydd rhywun yn creu ffws fe fydd y dref ym marw ar ei thraed. Ble mae'r llw pensynwyr yn mynd i gael y gwasanaeth sydd ei heisiau o hyn ymlaen? Dylai fod cywilydd ar y Swyddfa Bost Brenhinol nad ydynt yn meddwl o gwbl nac yn hidio dim am roi gwasanaeth i gymunedau. Byddai'r Post yn dal i fod ar agor pe byddent yn talu cyflog gwell. Heb yr un banc a Swyddfa Bost mae'n anodd galw Hendygywyn yn dref mwyach.

Dyma atebion cystadlaethau mis Mehefin

Y croesair "Llafariaid ar Goll"

Ar Draws

1. Gwarantu, 5. Dant, 9. Sgets, 10. Parablu, 11. Drws, 12. Cynigion, 14. Ysgwyd, 15. Campus, 18. Trydanwr, 20. Hynt, 23. Mwstard, 24. Eleni, 25. Ofni, 26. Bonclust.

I Lawr

1. Gosod, 2. Anenwog, 3. Awst, 4. Twpsyn, 6. Asbri, 7. Truenus, 8. Preifat, 13. Cyfalaf, 14. Ystumio, 16. Pryderu, 17. Mwydro, 19. Ymson, 21. Trist, 22. Celc.

Y grid "o Naw i Chwech"

Ar Draws

Gwrid; Cledr; Hadau.

I Lawr

Gwlad; Credu; Sidan.

Dim ond 9 ymgaia ddaeth i law a diolch yn fawr i'r ffyddloniaid am hyn, felly peidiwch da chi a chwyno mai yr un rhai sydd yn ennill pob tro. Rwyf wedi ceisio rhoi cystadlaethau gwahanol o'ch blaen ym mhob rhifyn ers dros deugain mlynedd bron.

Yn anffodus mae'r nifer sy'n cystadlu wedi mynd i lawr yn fawr, ac rwy'n siomedig iawn am hynny. felly rwyf wedi penderfynu na fyddaf yn cyfrannu a chreu y cystadlaethau yn ym Cardi Bach ar ôl y Nadolig, hyn oherwydd problemau gyda'm llygaid ac hefyd am yr ymateb rwyf yn ei gael.

Diolchaf o waelod calon i'r ffyddloniaid oll am eu cefnogaeth ac am ymgymryd â'r holl bosau gwahanol dos y blynyddoedd a gobeithiaf yn fawr y gwnaiff rhywun arall gymeryd yr awennau drosodd.

Yn gyntaf y tro hwn ac yn ennill y wobr o £ 5 yw Nesta Rees, Pwlltrap gyda Tegwen James, Blaenwaun yn ennill yr ail wobr o lyfr Cymraeg. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt, ac hefyd i'r canlynol am eu hatebion cywir:

Phyllis Hughes, Pwlltrap; Peter Crowdie, San Cler;

Gwlithyn Jones, Dryslwyn; Olwen Gibbon, Heol Llysonnen; Dorothy Williams, Efailwen; Eilyr Thomas, Llandysilio a John Lewis, Meidrim.

Dyma atebion y Cwros a Chwilrif Mis Mehefin

O	X	O	X	O	X
X	O	X	O	O	X
O	X	O	X	X	O
O	O	X	X	O	X
X	X	O	O	X	O
X	O	X	O	X	O

2	3	1	7	9	8	5	4	6
8	9	6	4	5	1	3	7	2
4	5	7	3	2	6	9	8	1
9	4	2	8	1	7	6	3	5
6	8	3	9	4	5	1	2	7
1	7	5	2	6	3	8	9	4
3	6	9	5	7	2	4	1	8
5	2	8	1	3	4	7	6	9
7	1	4	6	8	9	2	5	3


Dyma ddau arall i'ch diddori y mis hwn

				X	
X			O		
		X	O		O
O		O	X		
	X				
			O		O

		5			9		4	2
								3
	2	4						6
1			7	6				
8		6	5				2	
			9	3		4		
9	1		2		4			
	6			8			9	
		2				8		4

Mae dwy ran i gystadleuaeth y mis hwn a rhaid cwblhau y ddau yn hollol gywir os am y siawns o ennill y gwobrau sef £5 i'r cyntaf a llyfr i'r ail a ddaw allan o'r het.

Y rhan gyntaf yw cwblhau'r croesair odditano



Cymerir ch, dd, ff ac yn y blaen fel un llythyren

Ar Draws

1. Poeni, 4. Ffrwyth Efa, 7. Anifail, 8. Dichellgar, 9. Aderyn, 11. Afonig, 12. Dyn, 13. Gwalch, 16. Meddyg, 18. Treulio, 20. TARTH, 21. Pedwar bys a bawd, 22. Pitw, 27. Cerbyd, 28. Dagreuol, 29. Fel îa, 30. Heb wallt, 31. Cenedwri.

I Lawr

1. Bevan Cymraeg, 2. Cywir, 3. Arwerthiant, 4. Syr ysgol, 5. Un o Gaeredin, 6. Pwyslais, 10. Symud yn y dŵr, 14. Coch neu Dawel. 15. Sied, 16. Perffaith, 17. Rhodio, 19. Dydd o'r wythnos, 23. Ffrwythau cochion, 24. Sâl, 25. Cart, 26. Mantell.

Dyma'r ail ran

Tybed a fedrwch ddarganfod enwau rhai o ddi-nasoedd y byd a geir wrth ichwi ddatrys y rhifau canlynol gan ddefnyddio'r allwedd-bad (keypad) y teliffon a ddangosir. e.e. **38596** fyddai Dulyn



- | | |
|----------------|----------------|
| 1). 52285 | 7). 6247624 |
| 2). 786254656 | 8). 22373933 |
| 3). 22476 | 9). 9355464866 |
| 4). 635268763 | 10). 28327378 |
| 5). 688292 | 11). 5438 |
| 6). 2673642436 | 12). 2345464 |

Anfonwch eich atebion i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn- ar-Daf, SA34 OAX, erbyn Tachwedd 1af 2022, ynghyd a'ch enw, cyfeiriad llawn a'ch rhif ffôn os gwelwch yn dda. Peidiwch a gadael anfon eich cynigion i mewn tan y funud olaf. Cofiwch fod ym rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill gwobr.



Cyfraniadau

Teulu'r diweddar Megan Morris, San Cler	£100
Eleri Hughes-Gage, Cwmbach	£10

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae tymor yr Hydref yma a'r nosweithiau'n cau i mewn. Hyderwn y cawn haf bach Mihangel i fyrrhau'r gaeaf. Braf yw cael nodi fod nifer yr aelodau'n cynyddu a byddai'n hyfryd cyrraedd 700 erbyn diwedd y flwyddyn. Gofynnaf yn garedig i'r sawl sydd heb ymaelodi eto, i wneud, drwy ddanfôn siec i mi am £10 yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach', neu dalu drwy'r banc. Rhif didoli'r banc yw 40-46-27 a rhif y cyfrif yw 91020765. Lle mae angen cyfeirnod/reference, rhowch eich enw chi fan hyn. Bydd enwau pawb a wnaiff ymaelodi erbyn diwedd y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn y Raffl Fawr ym mis Chwefror y flwyddyn nesaf, gyda chyfleoedd i ennill sawl gwobr ariannol!

Diolch i'r canlynol am ymaelodi ers y rhifyn diwethaf:-

Mair Collinge, 8 Parc Ostrey, San Cler
Y Parchedig Beti Wyn James, Llys Gwyn, Clos y Parc, Abergwili
Liz Llewellyn, Dol Awel, Efailwen
Arwel a Ceris Llewellyn, Wernhyfryd, Llandysilio
Dorian a Christine Anthony, Coedfryn, Heol Meidrim, San Cler
Eirian a Hilary Edwards, 23 Maes y Frenni, Crymych
Jessica a Zac Edwards, 23 Maes y Frenni, Crymych
Merle Davies, 59 Maes yr Yrfa, Crymych
Eirianydd Lewis, Min y Ddol, 8 Bro Derwen, Clunderwen
Delyth Roblin, Fferm Glynty, Clunderwen
Dai a Carol Greves, Pentrecagal, Trelech
Doreen Adams, Llinalaw, Hen Dy Gwyn
Aled ac Amy, Llinalaw, Hen dy Gwyn
Thomas Adams, Llinalaw, Hen Dy Gwyn
Vernon Beynon, Bwlch y Ddwy Sir, Llandysilio
Gillian Beynon, Bwlch y Ddwy Sir, Llandysilio
Margaret Rees, 19 Lon Hywel, Hen Dy Gwyn
Gerwyn ac Eleanor Williams,, 1 Brynbanc, Login
Elinor Jameson, Cil y Barcud, Meidrim
Mon Davies, Man Tawel, Llandysilio
Meurig Davies, Man Tawel, Llandysilio
Annette Llewellyn, 4 Laburnham Cottage, Llandysilio
Dion Williams, Cilowen, Login
Margaret Williams, Cilowen, Login
Dan Scannell, Rose Hill, Llanglydwen

Philippa Scannell, Rose Hill, Llanglydwen
Joy Llewellyn, 1 Laburnham Cottage, Llandysilio
Margaret Owens, Glas y Dorlan, Llanglydwen
Brynmor Thomas, Bryn Derwen, Clunderwen
Angela Thomas, Bryn Derwen, Clunderwen
Evan ac Edith Davies, Brynglas, Llandysilio
Ken a Nia Davies, Caeglas, Llandysilio

Llongyfarchiadau i enillwyr fis Gorffennaf:-

192 - Noleen Davies, Wernfraith, Parc y Rhos, Cwmann - £20
544 - Tudur Lewis, Bro Beca, Efailwen - £10

Diolch i chi am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel,
Rhian



Cynhwysion:-

1. Menyn er mwyn uro'r tun.
2. 8 owns o fflwr S.R.
3. Llond llwy de o halen.
4. Llond llwy de o bowdwr mwstard
5. 3 owns o gaws cryf wedi ei ratio
6. 2 llond llwy de o 'chives' ffres
7. 1 wy wedi ei guro
8. 2 llwy de o fenyn wedi ei doddi
9. 150 ml/5fl owns o laeth.

DULL

1. Urwch dun crwn gyda menyn a rhowch bapur parchment ar y gwaedod.
2. Rhowch y fflwr, halen a'r mwstard mewn bowlen fawr.
3. Cadwch 3 llond llwy de o gaws i'w ysgwyd dros y dorth cyn ei phobi.
4. Cymysgwch gweddill y caws a'r chives wedi ei torri'n fân.
5. Ychwanegwch yr wy, menyn a'r llaeth i'r cynhwysion sych a chymysgwch yn dda.
6. Rhowch y cyfan yn y tun gan ysgwyd y caws wedi ei ratio drosto.

Pobwch mewn ffrwn gwres 190C / 375F marc nwy 5 am tua hanner awr.

Mae'n flasus gyda cawl, pate neu ginio ysgafn.

COED TÂN FFERM RHYDWEN

Coed Pren Caled

Wedi sychu'n llawn dros ddwy flynedd

Barod i losgi



Cysylltwch â Richard neu Judy ar:
01437 563120
rhydwenfarm@btconnect.com

IFAN DAVIES Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES

ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED

a
THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319



CORNEL Y DYSGWYR

gan Albie Abbot

Dyma rywbeth i chi wneud yn mis Medi. Gobeithio y bydd o help i chi cyn ail ddechrau eich dosbathiadau - arfer yw hanner y gwaith ond e fe.

Pob lwc, *Albie*

Geirfa

Dewiswch y gair gorau o'r pum dewis i gwblhau'r frawddeg:-

Nid wedi breuddwydio roedd e, roedd y peth a welodd yn

- a) ffaith b) ffawd c) ffrwyn ch) ffrwyth d) ffydd.

Roedd Hywel Dda am gadwrhwyng Cymru a Lloegr er mwyn osgoi rhyfel.

- a) gelyniaeth b) heddlu c) heddwch ch) henaint d) trugaredd.

Roedd rhai'n meddwl ei fod yn codi gormod arnyn nhw ac yn dechrauynghlych y pris.

- a) bygwth b) cystadlu c) dadlau ch) pregethu d) trafod.

Daeth rhywun i'r siop i brynui wneud siwt.

- a) brethyn b) clwtyn c) dillad ch) lliain d) llinyn.

Roedd ty'n sefylly ffordd.

- a) ar fin b) ar draws c) ar ganol ch) ar hyd) ar wastad.

Ar wahan i gadair a gwely doedd dimeraill yn yr ystafell.

- a) adnoddau b) defnyddiau c) dodrefn ch) nwyddau d) offer

Dim ondcyfrwys iawn fyddai wedi gallu dwyn cymaint o arian mewn cyn lleied o amser.

- a) carcharor b) gelyn c) lleidr ch) llofrudd d) pechadur

Roedd y ferch yn cysgu a'i phen ynar ysgwydd Twm.

- a) crafu b) gwasgu c) llithro ch) penlinio d) pwysu

Roedd ei gwr wedi gadael ac wediyn ol i'r Alban.

- a) cilio b) cropian c) diflannu ch) dychwelyd d) llithro

Roedden nhw wediam ddwy flynedd cyn priodi

- a) clymu b) diddanu c) diweddu ch) dyweddio d) ymuno

Roedd yn amhosibl agor y bocs oherwydd bodarno.

- a) allwedd b) caead c) clawr ch) clo d) dolen

Gwisgodd y wraig bâr o fenyg cynnes oherwydd

- a) annwyd b) y ddanodd c) y gwres ch) yr heulwen d) yr oerfel

Roedd y boen yn ei droed yn awgrymu bod un o'rwedi'i dorri

- a) aelodau b) arddyrnau c) esgyrn ch) penliniau d) ysgwyddau

Gallai edrych yn ol.....ar flwyddyn lwyddiannus iawn.

- a) a balchder b) a dicter c) a gofid ch) a theyrnas d) a thywysogaeth

Cadwodd y Brenin Hywel Gymru yn wladar Loegr.

- a) anniben b) annibynnol c) anrhefnus ch) annynol d) anwleidyddol

Roedd y dyn oedd yn eistedd wrth y ddesg yn symud ei ddwylo.....

- a) yn arw b) yn ffyrnig c) yn gas ch) yn greulon d) yn wyllt

Adrian Llewellyn Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concriid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANEG HENDYGWYN AR DAF CYF. (WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygywn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



MERCHED Y WAWR

Cangen Beca

Prynhawn Iau, Medi 8fed gwnaeth aelodau y gangen gyfarfod yn Llety Cynin am de prynhawn. Gwnaethom fwynhau y te a chael clonc go iawn. Trist oedd meddwl a chofio am yr aelodau a gollwyd yn ystod y flwyddyn.

Buom yn edrych dros raglen y flwyddyn a gwneud rhai trefniadau. Darllenodd Angharad lythyr wrth Llyfrau Llafar Cymru yn diolch am ein rhodd ariannol at y gwaith y maent yn ei wneud i helpu'r deillion.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 13eg am 3 o'r gloch yng Nghaffi Beca. Brian Jones, Castell Howell fydd yn dod i sgwrsio gyda ni. Bydd croeso i unrhyw un i ymuno gyda ni yn y cyfarfod.

Cangen Gronw

Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor ar brynhawn Iau, Medi 29ain am 1.30 yn festri Ramoth. Gŵr gwadd fydd Eurfyl Lewis. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Penwythnos Preswyl Merched y Wawr



Un o'r triapiau a drefnwyd yn ystod Penwythnos Breswyl Merched y Wawr yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ar Fedi'r 10fed, oedd ymweliad â Gerddi a Chanolfan Hywel Dda yn Hendygywn. Croesawyd deg ar hugain o ferched o bob rhan o Gymru gan Valerie Davies, aelod o gangen Gronw ac o Bwyllgor Hywel Dda a rhoddod fraslun o hanes y Ganolfan a'i phwysigrwydd yn hanes Cymru iddynt.

Rhannwyd y grŵp yn ddwy ran a thra aeth Valerie ymlaen i adrodd hanes Llyfr Peniarth a Llawysgrif Boston i un hanner, aeth Catrin Stevens o amgylch y gerddi gyda'r hanner arall. Roedd Pat Price, Rhian Harries, Ann Glanville ac Ann Lewis wedi bod yn brysur yn paratoi dished o de a sgon a jam a hufen o waith Christine James i'r merched. Roedd pawb wedi cael prynhawn hyfryd a buodd y tywydd yn garedig iawn. Tynnwyd y llun gan Rhian Harries.

COLOFN LLÊN

CAPTEN gan Meinir Pierce Jones



Dyma'r llyfr enillodd Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Tregron eleni.

Mae cyfnod y nofel yn y flwyddyn 1893. Y prif gymeriad yw Elin Jones ac mae'n briod a John sydd i ffwrdd ar y mor ers dros flwyddyn. Mae'n hiraethu amdano ac er iddi gychwyn busnes a bod ganddi ei theulu o'i chwmpas, mae'r aros yn hir ac yn anodd.

Yna daw newydd annisgwyl am yr hyn a ddigwyddodd iddo.

Roedd y cyfnod yn anodd ac yn dlawd a cheir golwg ar sut oedd y gymdogaeth yn byw.

Mae llawer o lythyron John yn y nofel ac mae'n gorfod dod adref am gyfnod hir. Mae hyn yn codi hen ofnau a heriau newydd.

Mae'n nofel hir a hyfryd.

CAPTEN. Gwasg y Bwthyn. Pris £10

N.E

Cregyn Môn Y Môr

nofel gyffrous newydd sbon gan John Gwynne

Cregyn Môn Y Môr yw'r drydedd gyfrol yng nghyfres El ac Al. Er fod pob un o'r nofelau yn sefyll ar ei thraed ei hun, mae John Gwynne, unwaith eto, yn ein gwahodd i rannu bywydau cyffrous Elisabeth ac Alun Morgan.

Yn y gyfrol gyntaf sef 'Ar Lan y Môr y Mae', cawsom ein cyflwyno i'r ddau. Pryd hynny roedd Elisabeth yn athrawes ac yntau yn swyddog blaenllaw yn yr heddlu - y ddau wedi colli cyswllt â'i gilydd am dros ugain mlynedd.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
 Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
 Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
 Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
 Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
 Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygywn ar Daf
 Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED

Plymio a Gwresogi

07792 947227
 ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
 a'i Gwmni


SIOP NWYDDAU HAEARN
 Belle Vue
 Clunderwen

Ffôn: 01437 563217

Cuddio am ei fywyd wrth ei elynion erchyll roedd Morgan mewn lle bach anghysbell ar arfordir Bae Ceredigion. Gwelsom y berthynas rhwng y ddau yn blodeuo o'r ail.

Yn yr ail gyfrol sef, 'Atsain y Tonnau' mae'r ddau yn sefydlu cartref clyd ym Mhwll Gwyn er gwaetha' ymdrechion hen elynion i amharu ar hapusrwydd eu bywyd.

Mae peth amser wedi mynd heibio erbyn 'Cregyn Môn Y Môr' ond :



Ym mynwent Cwmcelyn Coch, pentref bychan yn agos i dref Aberteifi, gorwedd gweddillion merch ifanc. Yn ôl yr hanes swyddogol cafodd ei threisio a'i lladd pan oedd ond yn ifanc. Roedd yna gyffes ar y pryd ac mae Twm Ifans wedi treulio dros ugain mlynedd yn y carchar. Mae yn hen ddyn erbyn hyn, ond mae'n dal i fynnu ei fod yn ddieuog.

Er hynny does neb wedi bod yn barod i faddau iddo ef na'i deulu dros y blynyddoedd

Beth yn union ddigwyddodd ar y noson stormus hynny dros ugain mlynedd yn ôl ? Beth gall Bronwen Ifans wneud i brofi yr anghyfiawnder i'w thad ? Ond os nad Twm Ifans - pwy? Pwy sydd wedi cadw'n dawel a chuddio'r gwir dros y blynyddoedd – a pham ?

Mae Alun Morgan yn methu gwrthod cais Bronwen wrth i'r her o ddatrys y dirgelwch ddeffro hen ddoniau reddfodl sydd wedi bod yn dawel am yn hir.

Ar yr un pryd mae'r loced fach aur cafodd ei darganfod yn gorwedd ymysg y cregyn mân yn pwysu'n drwm yn ei boced. Oes 'na hanes i hon ? Pwy sydd wedi ei cholli a phryd ? Cwestiynau di-ri, un dirgelwch ar ôl y llall heb neb yn yr ardal yn sylweddoli beth sy'n mynd ymlaen – nes ei bod yn rhy hwyr.

Stori ddirlgel yw hon sy'n llawn o ddigwyddiadau cyffrous a chymeriadau difyr a bywiog. Mae'r darllenwr yn cael ei gludo o Ogledd Sir Benfro i fyny i Ogledd Ddwyreiniol Cymru fel mae John Gwynne, unwaith eto, yn llwyddo i glymu pob dim gyda'i gilydd a chreu diwedd glo cyflawn.

Er ei fod wedi ymgartrefi yn Wrecsam ers sawl blwyddyn erbyn hyn, deheubarth yr hen Sir Aberteifi yw cynefin yr awdur. Cafodd ei addysg cynnar yn Ysgol Aberbanc, Ysgol Pontgarreg, ac Ysgol Uchaf Llandysul cyn mynd i Ysgol Ramadeg Llandysul. Does dim rhyfedd felly fod ei nofelau cyffrous wedi ei lleoli yn y cylchoedd yma a'r mwyafrif yn ystod yr adegau mae'n eu cofio orau.

"Mae atgofion fy mywyd cynnar yn dal yn fyw yn fy meddwl er fod pob ysgol lle buom yn ddisgybl wedi cau erbyn hyn. Diolch byth, dwi'n dal i gofio'r hwyl o'r dyddiau hynny a'r ffrindiau da oedd yno i'w rannu," meddai, "Dwi'n gob-eithio wnâi byth eu anghofio."

Er fod y digwyddiadau yn gwbwl ffug efallai fod yna rhywbeth adnabyddus am rai o'r cymeriadau difyr sy'n ymddangos yn y llyfrau. "Does dim rhyfedd am hyn," meddai John, "Rwyf wedi cyfarfod â sut gymaint o wahanol bobol dros amser ac mae pob un ohonynt a rhywbeth gwerthfawr i'w gyfrannu boed yn dda neu yn ddrwg."

Efallai dewch chi ar draws rhywun chi'n meddwl eich bod yn adnabod wrth ddarllen y llyfrau yma – pwy a wŷr?

Rhai o sylwadau darllenwyr y ddwy nofel gyntaf:

Dyma ichi stori gyffrous oedd yn mynnu fy mod yn troi y tudalennau hyd y diwedd;

Braf oedd darllen dau lyfr oedd wedi ei ysgrifennu yn y dafodiaith lleol;

Pleser cael nid un ond dwy nofel oedd wedi eu lleoli yn fy nghynefin;

Mae gan John Gwynne y ddawn i wneud dirgelion allan o ddigwyddiadau cyffredin;

Mae storïau John Gwynne yn dod ac atgofion melys wrth grwydro ar draws Orllewin Cymru;

Go dda, dwi'n siŵr byddai rhain yn gwneud cyfres deledu campus.

Mae'r dair nofel ar werth yn y siopau llyfrau Cymraeg ar hyn o bryd neu yn uniongyrchol drwy:

ffonio Gwasg Tŷ Cornel ar 07831 111369

neu anfon e-bost i: jig_369@hotmail.com

Preselstorage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Elfelfre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigi@hotmail.com



Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

David Thomas, Talog

Dysgwr y Flwyddyn 2021



"Oh yeah, we're Welsh and proud of it, but we don't speak it. Wish we did..."

Stori gyfarwydd i lawer o bobl yng Nghymru.

Magwyd fi yn y brifddinas yn ystod y 70au ac 80au mewn teulu di Gymraeg. Un o'r "genhed-

laeth goll", fel petai. Rydw i'n cofio mynd i Eisteddfod Cwm Rhymini yn 1990, ac yn rhyfeddu ar y holl beth. Rhyw ddiwrnod, fe wnâi ddysgu'r iaith. Rhyw ddiwrnod...

Bellach wedi symud nôl i Gymru, fe benderfynais i ddysgu Cymraeg. Wedi symud i'r gorllewin, roedd y peth amlwg i'w gwneud er mwyn integreiddio mewn cymuned newydd, herio fy hun, a gwneud yn iawn am fyw heb siarad Cymraeg tan fy mhedwardegau. Fe ges i'r fraint o ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn 2021 ac erbyn hyn, rydw i'n defnyddio fy Nghymraeg pob dydd ar ôl sefydlu busnes gwledig dwyieithog. Beth oedd y pethau sydd wedi sefyll mas yn ystod y flwyddyn ers i fi ennill y wobwr?

Wel, ble i ddechrau? Gormod i'w rhestru ond mae ymateb pobl ledled Cymru, ac yn enwedig yn ein hardal wedi bod yn drawiadol.

Ers i fi gael fy enwi fel Dysgwr y Flwyddyn, rydw i wedi sylweddoli pa mor bwysig ydi'r wobwr i bobl Cymru. Wedi'r cyhoeddiad, fe ges i gardiau, negeseuon ac e-byst oddi wrth bobl ledled Cymru i fy llongyfarch. Roedd pob un yn syrpreis hyfryd ac annisgwyl.

Eithaf annisgwyl hefyd oedd cael fy adnabod gan bobl ar strydoedd Caerfyrddin a Sanclêr. Mae pobl yr ardal mor falch o gael enillydd yn eu plith. Mae fy nghymdogion a phentrefwyr Talog wedi bod mor gefnogol. Dyma'r tro cyntaf erioed i ni gael prosecco yng Nghlwb

Clonc yn Neuadd y Pentref... Am fraint!

Gwneud ymddangosiad ar y sofffa enwog 'Heno' oedd yn gofiadwy iawn wrth gwrs, ond yn bersonol y peth mwyaf trawiadol i fi oedd cael y cyfle i gwrdd â dysgwyr eraill, rhannu'n profiadau, ein storiâu, ac ein parch i'r iaith Gymraeg. Siaradwr Cymraeg ydw i erbyn hyn, sy'n golygu cymaint i fi.

Yn bersonol, mae dysgu'r iaith wedi cyfoethogi fy mywyd mewn cymaint o ffyrdd. Mae'r iaith hefyd wedi bod yn rhywfaith o docyn mynediad i'r holl ddiwylliant cyfoethog Cymreig sydd wastad wedi bodoli o'm gwmpas i. Fy etifeddiaeth, fe allech chi ddweud.

Y cam nesaf nawr yw dechrau cwrs M.A. yn y Gymraeg gyda Phrifysgol Aberystwyth, fis Hydref. Mae fy nhaith gyda'r iaith Gymraeg yn parhau.

Erbyn hyn rydw i wedi pasio'r baton ymlaen i Joe Healy, enillydd Dysgwr Y Flwyddyn yn Nhregaron eleni. Fe fydd yn llysgennad arbennig iawn dros yr iaith Gymraeg, heb os. Gobeithio y caiff flwyddyn fythgofiadwy fel y ces i..

Hanes merch o Efailwen sydd wedi dechrau busnes diddorol



Mae Glesni Evans yn ferch i Iwan a Meinir Jenkins Rhosfach, Efailwen. Cafodd ei geni yn 1993 pan oeddent yn byw yng Ngh-anolfan yr Urdd, Pentre Ifan. Mynychodd hi Cylch Meithrin Ffynnonwen ac Ysgol Beca, Efailwen ar ol iddynt symud yno fel teulu yn 1994.

Ei swydd cyntaf erioed yn 14 oed oedd gweini yng ngwesty Gellifawr lle cafodd ei brawd hynaf (Guto ei eni yn 1990). Ei swydd nesaf oedd gwerthu nwyddau i Curry's Hwlfordd a oedd tipyn o sialens yn 15/16 oed. Ar ol gwneud TGAU a Lefel A yn Ysgol y Preseli, penderfynodd fod hi eisiau fod yn weithwraig cymdeithasol, roedd hi wedi gobeithio mynychu cwrs yng Ngholeg Abertawe ond ar ol y siom o ddim cael ei derbyn, roedd rhaid meddwl am

DENNIS JONES
A'I DEULU
SAER COED
PEINTIWR AC ADDURNWR
TREFNWR ANGLADDAU

Maesawelon
Efailwen
Ffôn: 01994 419561
Symudol: 07817 650858

SONIA'S
Siop Trin Gwallt
Llandysilio
Oriau Agor

Mercher: 5.30y.h - 9.00y.h.
lau: 8.00y.b. - 3.00y.p.
Gwener: 9.00y.b. - 6.00y.h.
Sadwrn: 8.00y.b. - 2.00y.p.

Ffôn: 01437 563816

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a CDau

Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

ffordd arall i gyflawni ei phenderfyniad. Cafodd swydd i redeg cartref lloches weddol lleol i fenywod oedd yn cael ei cam drin. Felly penderfynodd wneud cwrs 'Open University' o adref, a fuodd hi yn ffodus i gael gwaith gyda Cyngor Sir Penfro tra yn astudio gyda gwahanol adrannau, sef iechyd meddwl, amddiffyn plant, mabwysiadu ac yn y blaen. Erbyn hyn roedd hi yn briod a ganddi merch fach sydd erbyn hyn yn 8 mlwydd oed, ac efeiliad yn 5 oed. Roedd yr adran mabwysiadu wedi agor llygaid Glesni, felly dechreuodd busnes ei hunan 2 flynedd yn ol fel 'adoption finder intermediary service'. Mae'r busnes yn debyg i'r rhaglen Saesneg sydd yn ymddangos ar y teledu sef "Long Lost Families" ac mae'r gwaith yn hollol gyfrinachol. Mae'r busnes yn mynd o nerth i nerth ac mae Glesni a'r staff wedi aduno llawer o deuluoedd o'r Deyrnas Unedig, America, Malta, Almaen a Pakistan.



Bydd Glesni yn ymddangos ar y gyfres nesaf o Gwesty Aduniad (S4C) yn yr Hydref, gyda'i chwsmer cyntaf sef ffermwr o Bancyfelin - Ian Thomas ac mae hefyd wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil i raglen newydd fydd ar BBC2, 'Hotel Reunion', fydd yn cael ei gyflwyno gan Alex Jones. Mae hefyd wedi bod yn ffilmio gyda person enwog sydd wedi ei mabwysiadu, a bydd y

rhaglen hynny i'w weld am awr ar ITV yn agos i'r Nadolig.

Dymuna papur bro Y Cardi Bach longyfarch Glesni ar ei mentergarwch gan ddymuno pob llwyddiant i'w busnes i'r dyfodol. Dal ati gyda'r gwaith gwych.

Colofn Garddio

gan W John Davies

Dyma fi ar ddiwedd mis Awst, yn eistedd i ysgrifennu ar ôl mis heb fawr o law, ond rhaid bod yn ddiolchgar am y cawodydd bychain a gafwyd. Felly mae wedi bod trwy gydol y flwyddyn eleni ac rwyf wedi grwgnach bron bob mis oherwydd prinder glaw ac mae eto yn dal yn rhyfeddol o sych. Er hyn, mae cynydau arferol wedi tyfu yn wyrthiol o dda yn ein gerddi, ond yn hynod, bach iawn o bryfed rwyf wedi gweld - dim pryf moron (carrot fly) ar y moron, a dim cleren ar y bresych hyd yn hyn. Beth bynnag, fel y tywydd, mae hyn yn rhyfeddol o anghyffredin, a gwn fel garddwr cyffredin, fod llygredd diwydiannol yn effeithio ar ein bywyd ni, a ninnau heb sylweddoli efallai pa mor ddrwg yw'r sefyllfa.

Er y sychder, dyma'r cnwd gorau rwyf wedi gweled o eirin duon. Mae gennyf ddau lwyn, un cynnar, sy'n aeddfedu ym mis Gorffennaf, ar llall ym mis Awst, ac mi gawsom gnwd bendigedig trwy gydol y flwyddyn. Mae gennym nifer o adar duon sydd yn rhannu'r cnwd a mi, ond am ryw reswm fe ddiflannon nhw o'r ardd yma canol mis

Gorffennaf, mae hyn yn fater o dristwch i mi, ond rwyf wedi mwynhau llawer mwy o'r Fitamin C gefais o'r ddau lwyn hyn. Mae cynydau cynabens yn eu hanterth mis yma ac i gael y gorau allan ohonynt, mae gofyn eu dyfrhau bob dydd, hyd yn oed os yw yn glawio, ac os nad yw'r dail yn fras iawn ychwanegwch fwyd tomatos iddynt, hynny yw, ar ôl dyfrhau yn dda. Gwnewch hyn yn wythnosol, ond dim ond os yw'r dail yn edrych yn rhy gryf. Mae hefyd yn bwysig i chwistrelli'r blodau arnynt a dŵr gloyw yn ddyddiol, yn enwedig os yw'r cennin yn brin, a da chi, peidiwch grwgnach os cewch ormod o gnwd!!

Mis Medi yw'r amser hefyd i feddwl am gadw hadau cynabens, er mwyn eu sychu a'u plannu eto drachefn flwyddyn nesaf. Dyma oedd y drefn flynyddol gyda mi - cerddwch lan a lawr y rhych gan edrych yn ofalus a thynnwch allan y tri phlanhigyn cryfaf a mwyaf llewyrchus yn y rhestr. Yna, edrychwch am y blodau cryfaf, clymwch ychydig o edafedd lliwiog ar y rhain er mwyn arbed i neb arall eu tynnu. Tynnwch i ffordd y rhan fwyaf o'r clwstwr a dim ond gadael y ddwy cynabensen fwyaf i ddatblygu a sychu. Wedi tynnu allan y nifer sydd eisiau, ac yn bwysig, gadewch y rhain yn eu lle hyd yr eithaf i'r plisg cael melynau a sychu trwyddynt. Peidiwch â'u cadw mewn pecyn plastig dros y gaeaf, rwyf wedi cadw had fy hun am dros ugain mlynedd heb eu bod yn dirywio o gwbl a hyn wrth fod yn ofalus yn tynnu'r had gorau a chryfaf pob tro. Wedi dweud hyn, a minnau bron yn 90 oed, y llynedd ac eleni, dim ond y cydnabens byr rwyf wedi tyfu, a wir, hyd yn hyn, rwyf wedi cael cnwd rhyfeddol o dda. Mae'r rhain yn tyfu hyd at droedfedd a hanner o uchder ac yn hawddach i'w trin gan hen ddyn fel fi - mae eu cynnyrch yn fendigedig ac yn cadw yn dda yn y rhewgell nes bod eu hangen.

Mae ail hanner mis Awst a mis Medi yn ddelfrydol i docio mwy neu lai pob math o goed blodeuog, hynny yw eu tocio a'u cadw yn daclus a siapus. Hefyd, gallwch baratoi tocion o chwech i ddeg modfedd o hyd o'r rhan fwyaf o'r rhain. Yna, gallwch eu plannu yn weddol ddwfn yn yr ardd, ac erbyn blwyddyn nesaf byddant wedi tyfu gwreiddiau newydd a byddant yn barod i'w trawsblannu allan lle bynnag y mynnwch. Os yw pridd eich gardd yn gleiog neu yn drwm iawn, cymysgwch rhywfaint o raeau neu grit er mwyn helpu i ysgafnhau'r pridd. Mae hyn yn galluogi'r gwreiddiau i anadlu'r aer sydd mewn pridd weddol agored.

Oherwydd y sychder, mae nawr yn anghyfreithlon i ddefnyddio pibell i ddyfrhau'r ardd, ond os ydych yn hen a ffaeledig a bod gennych garden las i barcio'r car, mi allwch gael caniatâd i ddefnyddio'r biben ddŵr fel arfer! Rwyf wedi hau dwsin o hadau letys canol mis Awst mewn lle cyn cysgodol o'r haul tanbaid, a wir maent wedi egino ac yn barod i'w trawsblannu, ac fe wnaif hyn wythnos gyntaf mis Medi. Pob lwc, mwynhewch eich garddio a phob nerth i'r garddwrn yn yr ardd.

BLAENWAUN

Moriah

Cynhaliwyd oedfa sefydlu y Parchedig Gareth Ioan yn weinidog ar eglwys Moriah, Nanternis, Bryn Iwan a Blaenycod ar Sadwrn, 10fed Medi. Bydd manylion yr oedfa yn rhifyn mis Hydref.

Hydref:

2ail - Oedfa o Fawl yn Nebo am 2 o'r gloch. Casgliad tuag at Cancr y Prostad. Oedfa Cylch y Gymanfa Ganu yw hon. Croeso cynnes i bawb.

9fed - Cwrdd Diolchgarwch am 2 o'r gloch. Parchedig Wyn Morris.

23ain - Cymun am 2 o'r gloch. Elonwy Phillips.

Tachwedd:

6ed - Cymun 1.30 Parchedig Gareth Ioan.

Croeso cynnes i bawb.

MEIDRIM

Henoed

Y siaradwr gwadd yn ein cyfarfod diwetha ar Fedi'r 6ed oedd Mr Vernon Beynon, Llandysilio.

Bu'n siarad am hen gymeriadau oedd yn byw yn ei ardal - y cymeriadau sy'n rhoi gwen ar ein gwynebau wrth glywed eu hanes. Clywsom amdanynt ganddo yn ei ffordd unigryw ei hun a chawsom brynhawn o chwerthin a mwynhad yn ei gwmni.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 4ydd yn Neuadd Ieuencid Meidrim pan fydd ysgol Meidrim yn ein diddanu.

Wrth y te yn y cyfarfod yma - Sheila Jones, Sally Jones, Lilian Rees, Jean Howell, Shirley Bowen.

Yn rhoi raffl - Shirley Bowen, Morfydd Davies, Jan Harbour a Lawrence Thomas.

RHYDWILYM

Yn ystod yr haf bu farw Oliver Phillips, Troed y Rhiw. Yr oedd 'Ollie' yn gymeriad adnabyddus yn y cwm. Bu'r angladd yn Berea, Croesgoch. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

Mae llawer o waith wedi ei wneud ar y capel yn ddiweddar. Bu gwaith trwsio ar y to, ac mae ffenestri blaen y Capel wedi cael eu paento.

Diolchwn hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod

wrthi yn gofalu a thacluso y mynwentydd a phob man o amgylch y lle.

Mae Katrina a'i phriod John wedi croesawu ŵyr bach newydd i'r aelwyd. Pob bendith i Aled, Kerry a'r teulu i gyd.

Dymunwn yn dda i bawb sydd yn anhwylus ac yn derbyn gofal meddygol ar hyn o bryd.

Oedfaon

Medi 25ain: 10.30 - Alun Lenny

Hydref 9fed: 10.30 (Cymun) - Annalyn Davies

Bydd hwn yn Wasanaeth Diolchgarwch

Hydref 30ain: 2.00 - Arwel Evans

GELLYWEN

Ainon

Annwyl ffrindiau dim ond gair bach i nodi fod ein Cwrdd Diolchgarwch wedi symud o Fedi 27ain i nos Fawrth, Hydref 4ydd am 7yh pan ddisgwylyr y Parch Emyr Gwyn Evans i wasanaethu.

Hefyd bydd oedfa bregeth am 2 or gloch ar brynhawn Sul, Hydref 16eg pan fydd Alun Lenny yn gwasanaethu.

RHYDYCEISIAID

Diolch yn fawr i'r Parchg. Guto Llywelyn am ei wasanaeth gwerthfawr yn oedfa'r Cymun ar Sul, Medi 4ydd. Braf oedd cael cwmni Mri Eifion a Dewi Griffiths, Mrs Mair a Ronnie Morgn yn yr oedfa - hwythau yn eu galar o golli brawd a brawd-yng-nghyfraith sef Mr Trefor Griffiths, Llanbariets.

Yn anfwriadol, gadawyd allan enw Mr Hywel Thomas am drefnu angladd Trefor Griffiths ym mis Gorffennaf (gyda Cwmni Peter Evans) gydag urddas a pharch.

Llongyfarchiadau i Mrs. Marlene Lewis, Hafan Glyd ar ddod yn hen-famgu yn ddiweddar.

Ganwyd mab i Ceri ac Aled, Fferm Tyrhos, Casblaidd (Tommy John Jenkins) - ŵyr i John Jenkins, Fferm Lower House, Spittal.

Dymuniadau gorau a diolch i Roy a Rhoswen Llewellyn am roi oes o wasanaeth gwerthfawr i fro'r Cardi Bach a thu hwnt.

Dymuniadau gorau a diolch hefyd i Mrs Nansi Evans am ei gwasanaeth hithau i'r Cardi Bach.

C J Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.

SPAR

Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard

San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



HENLLANFALLTEG

Priodas dda



Llongyfarchiadau, a dymuniadau gorau i Sion Harries, gynt o Efailfach, Henllan Amgoed a Rachel. Priodwyd y ddau yng Nghaerdydd ar Awst 22ain yn dawel bach heb i neb wybod. Syrpreis fach neis i'r teulu!

Priodas dda



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau hefyd i Ffion Scourfield, (merch Angus Scourfield a Nia Edwards) a Matthew Moseley, San Cler.

Priodwyd y ddau yng Nghapel Henllan, Henllan Amgoed ar y 3ydd o Fedi gan y Parch Huw George a bu'r wledd yng Ngwesty Allt-yr-afon.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Megan Morris, Bryntaf, Llanfallteg ar dderbyn gradd BSc. 2.1 mewn Therapi Galwedigaethol o Brifysgol Caerdydd. Er graddio dwy flynedd yn ôl, bu'r seremoni yng Nghaerdydd mis Gorffennaf eleni.

CWMBACH

Blin gennym glywed am farwolaeth Natalie Maria Beynon-Parris, merch Hazel ac wyres y diweddar Barch. a Mrs D G Beynon cyn ficer Eglwys Llanwinio ar ôl cystudd hir. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu. Bu'r angladd yn Eglwys Crist Caerfyrddin ac yna ym Mharc Gwyn.

Dymunwn wellhad buan i Geraint Evans, Fronfelin ar ôl cael llaw-driniaeth yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Seren Evans, Fronfelin, ar raddio o Brifysgol Abertawe gyda Baglor Mewn Gwyddoniaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Anrhydedd ail ddosbarth adran un.

LLANGLYDWEN

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Jill, Eurfyl a'r teulu, Lluet ar farwolaeth mam, mam-yng-nghyfraith a mamgu annwyl iawn, sef Mrs Glenys Owens, Mynachlogddu. (W a M)

Rhys Jones
Glanhauwr Simnai

Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
Arolygiad Teledu Cylch Cyfyng
Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
Gosod larymau Carbon Monocsid
Gwasanaethu/atgyweirio stôffiau a lleoedd tân
Yswiriant a chymhwysiaid llawn

☎ 07554 647544
www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

LOGIN

Calfaria

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedig Eirian Wyn, Brynmanan am ei wasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerth-fawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Medi 25ain - Alun Lenny -

Cwrdd Diolchgarwch 2 o'r gloch

Hydref

9fed - Annalyn Davies - Cymun 2 o'r gloch

30ain - Arwel Evans - Cwrdd 10.30 o'r gloch

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda'r teuluoedd canlynol sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar :-

Margaret, Stuart, Anwen, Aled ac Eifion Griffiths a'r teulu ar farwolaeth gwr, tad, tadcu a brawd annwyl iawn sef Gareth Griffiths, Waunfach. Bu Gareth farw ar Gorffennaf 15fed a cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Blaenconin, Llandysilio ar Gorffennaf 27ain dan ofal y Parchedig Sian Elin Thomas. Talwyd teyrnged diffuant i Gareth gan ddau o'i ffrindiau sef Clive Edwards ac Eurfyl Lewis.

....hefyd â Tudur, Rhodri, Gwyndaf a Nia Lewis ar farwolaeth mam yng ngyfraith a mamgu annwyl sef Elda Evans o Saron, Llangeler.

....hefyd â Russell, Pam, Fiona, Kay ac Endaf Davies ar farwolaeth mam, mam yng ngyfraith a mamgu annwyl sef Mair Eynon.

....hefyd â Jill, Eurfyl, Ifan, Elan a Tomos Lewis ar farwolaeth mam, mam yng ngyfraith a mamgu annwyl sef Glenys Owens o Mynachlogddu.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Iris Morris sydd adref o'r ysbyty erbyn hyn.

Penblwydd hapus

Dymunwn benblwydd hapus i Janet James fu'n dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Awst 24ain. Daw'r cyfar-chion wrth holl aelodau'r capel ond yn arbennig wrth Nin, Ann, Simon, Faith, Kelly a'r teulu i gyd.

....hefyd i Ceri Jones, Bronant a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ganol mis Awst.

....hefyd dymunwn benblwydd hapus i Kay Davies, fu'n dathlu ei benblwydd yn 40 oed ar Medi 10fed.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau mawr i Alan ac Iris Newman fu'n dathlu eu Priodas Aur ar Awst 18fed.

....hefyd i Ed a Margaret Morgan fu'n dathlu eu Priodas Aur ar Awst. Dymuniadau gorau i'r ddau gwpwl i'r dyfodol.

Y Fynwent

Mae'r fynwent a'r maes parcio yn edrych yn hyfryd unwaith eto, diolch o galon i Russell, John, Kay, Endaf a Bleddyn Davies am eu gwaith yn torri'r porfa.

Canolfan Ffynnonwen.

Collodd pwyllgor y ganolfan aelod gweithgar iawn pan bu farw Gareth Griffiths, Waunfach, yn sydyn ar y 15fed Gorffennaf. Gwelwn ei eisiau yn fawr iawn. Estynnwn ein cydymdeimlad â Margaret, Stuart, Anwen, Aled ac Eifion Griffiths a'r teulu. Colled fawr i'r ganolfan ac i'r ardal.

CWM MILES

Capel Cwm Miles

Canslwyd oedfa Medi 18fed am 2 o'r gloch oherwydd oedfa cofio am deuluoedd a gollodd anwyliaid yn ystod y ddwy flynedd a hanner diwethaf. Cynhaliwyd yr oedfa yng Nghalfaria Login am 2 o'r gloch.

Hydref 30ain:

Cwrdd Diolchgarwch am 2 o'r gloch. Nigel Davies.

Croeso cynnes i bawb.

LLANBOIDY

Trinity

Ar ddydd Sul, Gorffennaf 31ain, gyda'r gweinidog yn gwasanaethu, cafwyd bedydd merch fach Sarah a Noir Jones o Abertawe. Hyfryd oedd cael cwmni teuluoedd y ddau yn yr oedfa. Ar ddydd Sul, Awst 28ain croesawyd Mrs Margaret Griffiths i wasanaethu, gydag aelodau o Tabernacl a Bethel hefyd yn bresennol. Ar Fedi'r 4ydd, hyfryd oedd cael crosaw'r gweinidog, Guto Llywellyn yn ôl wedi'r gwyliau.

Llongyfarchiadau i Wenfys Rees ar ddathlu penblwydd

arwyddion
eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lifrau Cerbydau...

01994 231749

post@eaglesigns-wales.co.uk

www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS

Dandre
Llanboidy



Paentiwr ac
Addurnwr

Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL

 **Monraker** 

Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"

 **Tir y Bont**
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf 

Ffôn: 07837 089648

arbennig yn ddiweddar. Pob dymuniad da wrth ei ffrindiau a'i chymdogion.

Bedydd



Aria Fflur gyda'i rhieni Sarah a Noir Jones

Penblwydd arbennig



Wenfys Rees yn dathlu penblwydd arbennig

Diolch

Dymuna Wenfys Rees ddiolch yn fawr am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd ym mis Awst.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gwenllian a Daniel Owen ar enedigaeth merch fach, Fflur Rhiannon, wyres i Jayne ac Owain, Sarnau a gor-wyres i Norah Heseltine.

...hefyd i Michael ac Abbie ar enedigaeth merch fach, Megan, wyres i Joyce a Dai Phillips, Maesygrove a gor-wyres i Mair a Ronnie Morgan, Picadilly.

....hefyd i Darren a Naomi ar enedigaeth bachgen bach Rory, ŵyr i June a Gareth Griffiths, Millbrook.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf ar 14eg yn Neuadd y Farchnad o dan lywyddiaeth y llywydd Denise Harries gyda 15 aelod yn bresennol. Croesawodd y llywydd y gwystai sef Cathy Lee sydd yn byw yn lleol ac yn aelod o gymdeithas cenedlaethol trefnu blodau. Bu'n dangos sut i osod sawl trefniant, gyda 6 ohonynt i'w rafflo. Diolchodd Denise a Jen iddi am noson adeiladol.

Gwellhad Buan

Dymunwn yn dda i Lyn Kendall a fu yn ysbyty Glangwili yn ddiweddar, ac hefyd i Merle Evans, sydd yn ysbyty Glangwili wedi iddi cael damwain yn y tŷ a thorri ei chlun, dymunwn yn dda iddi, a gobeithio ei gweld adref cyn bo hir.

Dathlu dwbwl

Cyfarchion i berson arbennig, sef Rose Saer, Commercial gynt, a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar Fedi 19eg. Hefyd i Elgar a Rose ar eu Priodas Ddiemwnt ar Fedi'r 28ain. Oddi wrth eu holl ffrindiau yn Llanboidy.

CWMFELIN MYNACH

Ar ôl yr haf sych, poeth mae'r Hydref wedi cyrraedd a phethau yn dod nôl i'r drefn arferol.

Ramoth. Ar Sul, Medi 4ydd cafwyd gwasanaeth Cymundeb o dan arweiniad Mr Hedd Ladd-Lewis ac ar Fedi 11eg bu'r Parchg Huw George yn gwasanaethu yn oedfa'r prynhawn. Diolch iddynt.

Dyma drefn mis Hydref:-

2ail: Cymundeb – Mr. Dafydd Evans, Trelech – 2.00

9fed: Oedfa dan ofal Y Parchg Huw George – 2.00

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Roy a Rhoswen Llewellyn ar farwolaeth cyfnither Roy, sef Mair Eynon o Efailwen.

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymych

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

...hefyd â Brian John, bu farw ei nai, Raymond, mab y diweddar Gwenda ac Islwyn ddiwedd Gorffennaf.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i John a Heather Phillips (Es-gairddaugoed gynt) ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar Fedi 17eg

Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Gerald Blain a gafodd ddamwain gas ar ôl syrthio wrth seiclo. Mae'n dda clywed ei fod wedi dod adref o'r ysbyty ar ôl treulio tipyn o amser yno.

.....hefyd i Caroline James, Blaendyffryn ar ôl cael llawdriniaeth yn ysbyty Werndale

TRELECH

Cymymdeimlwn â Terry a Meinir James a'r teulu, Fronglyd, ar golli mam, mam-yng-nghyfraith, mamgu a hen famgu ym mis Gorffennaf. Roedd Mrs Nesta Davies yn byw ym Mhenrhiwllan.

Gwellhad buan a llwyr i Alan Ridley, Danybanc ar ôl iddo gael damwain adre.

Llongyfarchiadau mawr i Gerald Cannings ar ddathlu ei benblwydd yn 90 yn ddiweddar. Cafwyd parti bach iddo yng Nghanolfan Alma yng nghwmni teulu a ffrindiau.

...hefyd i Cerys, Tre-to Isaf ar ei swydd dysgu newydd yn Ysgol Llangadog.

Cafwyd Helfa Drysor llwyddiannus gyda'r ganolfan ar Wyl y Banc, a barbeciw yn dilyn. Diolch i Emma a Mary Baker ac i Ann Sillars am drefnu'r helfa. Yr enillwyr oedd Emyr ac Eleri Williams a'r teulu, Meidrim; yn ail Arwyn a Teleri Bowen, Tresi Aur ac yn drydydd teulu Tre to Isaf, Tre-lech.

Llongyfarchiadau mawr i ieuencid yr ardal ar eu llwyddiant mewn arholiadau yn ystod yr haf a phob dymuniad da i'r rhai sydd yn mynychu colegau a phrifysgolion yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae Cylch Meithrin Trelech yn cynnal noson yng nghwmni y 'Welsh Whisperer' ar nos Wener, Hydref 21ain yn Nhafarn Beca, Trelech.

BANCYFELIN



Mwynhaodd rhai o aelodau a phlant Capeli Cana a Bancyfelin daith gerdded a drefnwyd gan yr Ofalaeth ar ddydd Sadwrn, 17eg Gorffennaf. Ymlwybrodd y cerddwyr i Gastell Llansteffan a Bae Scott gan basio Ffynnon Antwn cyn mwynhau picnic ar y traeth. Diolch i bawb a ddaeth.

Apêl 'Bwndel Babanod'



Lanswyd apêl yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf gan aelodau eglwysi Gofalaeth Y Priorddy, Cana a Bancyfelin i gasglu nwyddau ar gyfer 'Bwndel Babanod' Plant Dewi. Dyma Sian Duggan o'r elusen yn derbyn y nwyddau oddi wrth Beti-Wyn. Bu cefnogaeth wych i'r apêl. Diolch bawb.

Gibeon

Cafwyd oedfa hyfryd ar Awst 28ain o dan ofal Annalyn Davies. Thema'r oedfa oedd "Agor y drws" a chlywyd am y gwaith a wneir wrth "agor y drws" yn ein cymunedau. Cyfeiliwyd gan Hilary Evans.

Dymunwn yn dda am wellhad llwyr a buan i Marian Thomas yn dilyn ei llaw-drinaeth ym mis Awst.

Pan gaewyd drysau Capel Mair, un o eglwysi'r ofalaeth cyflwynwyd y bwrdd emynau i'w ddefnyddio yn yr oedfaon yng Ngibeon.

 **the LONDON HOUSE** butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygywn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

Galwch mewn am y dewis gorau

Dilynwch ni ar Facebook 

 **GERALD BLAIN**
CYMDEITHRION CYF

15 Stryd St Ioan, Hendygywn,
Safon Gaeafydd, SA34 0AN

01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.COM

 @GBAASSOCIATES

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514



Yn y llun gwelir Les Evans a Marian Stevens o Gapel Mair yn cyflwyno'r bwrdd emynau i Annalyn Davies a Meirion Morris, dau o ddiaconiaid Gibeon.

gwadd fydd Tweli Griffiths. Croeso cynnes i bawb.

Os hoffech ymuno gyda'r Henoed, cysylltwch gyda Mai
Thomas 01267 236522 neu Annalyn Davies 07783471377
Croeso cynnes i bawb.

EFAILWEN

Pob lwc i Gwyndaf Lewis yn ei swydd newydd gyda Triathlon Cymru.

Cafwyd gwasansaeth hyfryd yng Nghapel Nebo ddechrau Awst pan bedyddiwyd Gruff Wyn, mab bach Sioned a David Coates gan y Parchedig Catrin Thomas. Hyfryd oedd gweld plant yr ysgol Sul yn cymeryd rhan.



Bedydd Gruff Wyn

Henoed



Braf oedd cael mynd ar drip unwaith eto ar ôl cyfnod mor hir ac roedd cryn edrych ymlaen i'r diwrnod. Roedd Gorffennaf yr 11eg yn heulog ac yn dwym - tywydd delfrydol i gael trip i Ddinbych y Pysgod.

Cafwyd diwrnod wrth fodd pawb. Diolch i'r ysgrifennydd Mai Thomas am drefnu popeth yn drylwyr ac i'r trysorydd Carwen Howells am gymryd cyfrifoldeb o'r arian. A diolch i gwmni Bysiau Ffoshelig am ein cludo yn ddiogel.

Bydd cyfarfod nesaf o'r Henoed yn y Fox and Hounds
dydd Llun, Medi 19eg am 2 o'r gloch. Y siaradwr



Plant yr Ysgol Sul yng nghwmni'r Parchg Catrin Thomas

DAVID HARRIES
& Co

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street,
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf

**"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"**

**PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH**

01994 240 908
www.tafvallevoaches.co.uk

[illegible]

Cydymdeimlo

Gyda thristwch clywsom am farwolaeth Mair Eynon, Awel Deg, Glandy Cross. Bydd bwlch mawr ar ei hol yn Efailwen, yng Nghapel Nebo a Merched y Wawr lle'r oedd yn aelod gwerthfawr. Mae ein cydymdeimlad dwysaf yn mynd i Pam a Russell a'r teulu oll.

....hefyd a Rhiannon Davies, Pencerrig a'r teulu, sydd wedi colli brawd yn ddiweddar, sef Malcolm Phillips, Llandre Ucha, Mynachlogddu.

....hefyd â Tudur Lewis, Bro Beca a'r teulu ar golli mam-yng-nghyfraith a mamgu, sef Elda Evans, Saron, Llangeler.

Ysgol Sul Nebo

Mae'r ysgol Sul wedi ailgychwyn ar Sul, 11eg Medi am 9.30 fel arfer. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno a'r criw bach.

Penblwydd Hapus yn 30 oed

Penblwydd Hapus a dymuniadau gorau i Rhodri Lewis a oedd yn 30 oed ar Fedi 12fed. Oddi wrth Dad, Gwynnaf, Nia, a Ffion

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Dr Lowri James, Arosfa, Glandy Cross ar ennill gradd yn Meddygaeth a Llawfeddygaeth o Brifysgol Caerdydd. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg, Llantrisant.

Llongyfarchiadau hefyd i'w brawd Gethin James, Arosfa, Glandy Cross ar lwyddo yn ei arholiad diwethaf i fod yn Gyfrifydd Siartiedig.

LLANGYNIN**Pen-blwyddi arbennig**

Llongyfarchiadau mawr i Rhiannon Thomas, Llys Coed, a oedd yn dathlu ei phen blwydd arbennig yn 80 oed ar Fedi 10fed ac i Alun Davies, Erw Ddôl a oedd yn 70 oed ar yr un diwrnod. Pen blwydd hapus hefyd i Myrddin Parry, Erw Lon, a oedd yn 82 oed ar Awst 14eg. Pob dymuniad da i'r tri ohonynt.

Gwellhad buan

Pob dymuniad da i Marian Glyn Thomas, Llanddwyn, yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys yn ystod mis Awst. Da gweld bod Marian ar wellhad erbyn hyn! Cofiw'n hefyd am Gwennie Rees, Cheerio, a John Lewis, Maes Mebyd, hwythau hefyd wedi treulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gwellhad buan i'r ddau ac i bob un arall sydd wedi bod yn anhwylyd yn ystod misoedd yr haf!

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn fawr â Neil a Mary Edwards, Pleasant View, a'r teulu ar farwolaeth brawd Neil, sef Russell Edwards o Landysilio, Clunderwen.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Rhydian Davies, Awel y Bryn, ar gipio'r gilwobr i'r Pencampwr Gwryw gyda'i hwrdd blwydd Coloured Ryeland yn Sioe Frenhinol Cymru 2022 ym mis Gorffennaf.

SPAR

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

CLOTH HALL LLANBOIDY

Ffôn: 01994 448364 / 448221

Adeiladwyr DORIAN PHILLIPS

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywn, Sir Gar. SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 Rhif Symudol: 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbbuildingsupplies.co.uk



Rhydian Davies

Arholiadau

Llongyfarchiadau ar eu llwyddiant i bob un o blant a phobl ifanc y pentref a fu'n sefyll arholiadau TGAU a Lefel A eleni a phob dymuniad da iddynt wrth iddynt barhau â'u hastudiaethau yn yr ysgol neu'r coleg, neu wrth fentro i fyd gwaith.

Pencampwr Bowlio

Llongyfarchiadau mawr i Nigel Davies, Llain Deg, sy'n aelod o glwb bowlio Hendy-gwyn ar Daf, ar lwyddo i amddiffyn ei deitl fel Pencampwr Sengl Hŷn Cymdeithas Bowlio Sir Benfro drwy ennill rownd derfynol y gystadleuaeth a chwaraewyd ym Mhentywyn ar ddiwrnod braf a phoeth ym mis Gorffennaf.



Nigel Davies yn derbyn cwpan am ennill Cystadleuaeth Sengl Hŷn Cymdeithas Bowlio Sir Benfro gan Arwel Edwards, llywydd Cymdeithas Bowlio'r Sir.

Capel y Bryn

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn nos Wener, 14 Hydref, am 7 o'r gloch. Pregethir gan Mrs Annalyn Davies, a bydd paned i ddilyn yr oedfa. Croeso cynnes i bawb.

SAN CLER

Llongyfarchiadau i Hannah a Tom, Clos Griffith Jones, ar enedigaeth merch fach, Gwen, ar Fai 17eg. Wyres i Bobby a Christine Jameson, Disgwylfa.

...hefyd i Dafydd a Nest Williams, Pentalar, ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt ar Orffennaf 26ain.

Cydymdeimlwn â Mrs. Phyllis Price a'r teulu ar farwolaeth ei mab-yng-nghyfraith, Gareth Griffiths o Login.

Penblwydd Hapus i Ann Thomas, Clydfan a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Awst 31ain.

Braf oedd gweld nifer o San Cler, yn cynnwys Hannah, Steffan a Celyn Richards a Iola Wyn, Lleu a Cao yn cystadlu ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Tregaron. Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd.

Megan Morris



Ar Orffennaf 24ain, yn 90 oed, bu farw Megan Morris, Gwynfryn, San Cler. Yn enedigol o Goedllys, Llangynin, treuliodd ei harddegau ym Meidrim cyn priodi Glyn John a symud i San Cler. Bu'n gweithio yng Nghaerfyrddin cyn agor ei siop ŵlan ei hun yn Heol yr Orsaf, San Cler. Roedd gweu yn ddiddordeb mawr

ganddi ac yn ogystal â gwerthu gwlan medrai roi cyngor arbennig ar weu i'r cwsmeriaid. Roedd ei gwaith gweu yn werth ei weld. Colled anferth iddi oedd colli Glyn yn 1986.

Rhedodd ei busnes am sawl blwyddyn cyn priodi Paul Morris a fu farw y llynedd. Bu yn aelod ffyddlon ac athrawes Ysgol Sul yng Nghapel Mair ac yn aelod ffyddlon o Gôr San Cler. Ymhyfrydai mewn cadw tŷ cymen a roedd yn gogydd arbennig. Ei theulu oedd kannwyll ei bywyd ac ymfalchia yn llwyddiant ei merched, ei hŵyrion a'i gor-ŵyrion. Roedd yn ddarllenwr brwd o'r Cardi Bach ac edrychai ymlaen yn eiddgar at dderbyn pob rhifyn. Rhaid oedd iddi gael tocyn a mwynhau Cyngerdd Dathlu 40fed y Cardi Bach yn 2019!

Huw Owens
Saer Coed

Dan y Coed
Glandy Cross
Efailwen
Clunderwen
SA66 7XA

Ffôn: 01994 419315
Symudol: 07974 801672

Gwaith To • Ceginau • Ffenestri • Gwaith atgyweirio...a.y.y.b.

Jeff Court

Ceir Newydd ac Ail-law
PEIRIANNYDD MODURON
GWAITH CORFF

 STATION GARAGE
HEOL YR ORSAF
HENDYGWYN AR DAF

MOT SYSTEMAU TYMHERU AER

Ffôn: 01994 240304

Ty Bach Twt

Siop Anrhegion
Gift Shop

01239 831 144 / 07900 692 678

Ty Bach Twt

Cydymdeimlwn yn fawr a'i merched, Wendy a Shirley a'i gŵr, Robert, ei hŵyrion Sian-Elin, Aled, Owain ac Anwen, y gor-ŵyrion a'r teulu oll yn eu colled. Diolch i deulu Megan am eu cyfraniad hael i'r Cardi Bach er cof amdani.

Priodas Ruddem



Llongyfar-chiadau i Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Taf, San Clêr ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar Fedi 18fed. Priodwyd y ddau yng Nghapel y Groes, Llanwnen. Dymuniadau gorau i chi wrth y teulu i gyd.

Penblwydd Hapus yn 90 oed



Penblwydd Hapus i Mr Eric Davies, Tynewydd, San Clêr a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ym mis Awst. Cofion gorau wrth y teulu i gyd.

Penblwydd hapus yn 80 oed

Dymunwn benblwydd hapus i Delyth Phillips, Glenydd, Heol Dinbych y Pysgod fu'n dathlu ei 80 oed ar Medi 7fed. Daw'r cyfarchion, gyda llawer o gariad, wrth Brython, Eleri, Eirian, Donna ac Enfys a'u teuluoedd.

Codi arian er cof am Teddy Williams



Ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 2il, bu Julie Arms-Williams a'i mab, Curtis yn cymryd rhan yn TREK26 ym Mannau Brycheiniog. Roedd yn gwrw anodd dros ben ar adegau ac roedd y ddau yn hynod o falch eu bod wedi ei gwblhau. Eu dymuniad oedd codi arian at Gymdeithas Alzheimer, er cof am Teddy Williams a fu

farw ym mis Mehefin y llynedd. Roedd Teddy yn dioddef o dementia. Mae pobl yr ardal yn cofio Teddy fel cymeriad hoffus a fu'n rhedeg siop ffrwythau a llysiau yn y pentref am flynyddoedd lawer.

Cododd Julie a Curtis y swm anrhydeddus o £2,500 ac mae'n sicr na fyddai ymdrechion ac ymroddiad y fam a'r mab wedi bod yn bosib heb y cyfraniadau hael a dderbyniwyd. Dymuna'r ddau ddiolch yn ddiffuant ac o waelod calon i bawb a gyfrannodd at yr elusen.

Penblwydd Hapus



Penblwydd Hapus cyntaf ar Fedi 29ain i Thom Davies o Gaerdydd. Ma Thom yn fab i Rhodri a Hannah ac yn wyr i Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Taf.

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN

Canolfan
atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb

Dai James - Steven Owens

Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH



Crefftau Cymreig

Gemwaith Rhiannon

Crisial Brenhinol Cymru

Crefftau Lleol

Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau

Crymych, SA41 3QF

FFÔN: 01239 831230



- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
 - Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
 - Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
 - Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn
- 1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com



Brodor o San Cler yn ennill gwobr genedlaethol Mudiad Meithrin



Mae Bethan Reynolds sy'n ddisgybl yn Ysgol Bro Myrddin wedi ennill gwobr arbennig Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam sy'n cynnig hyfforddiant cydnabyddedig wedi'i achredu i bobl sydd am weithio mewn sefydliadau gofal

ac addysg blynyddoedd cynnar gan drefnu lleoliadau gwaith i ymgeiswyr mewn Cylchoedd Meithrin, dosbarthiadau meithrin a meithrinfeydd ledled Cymru.

Mae Bethan Reynolds o San Cler wedi ennill Dysgwr y Flwyddyn am ei gwaith ym Meithrinfa Dechrau Disglair, Caerfyrddin (llun ynghlwm).

Wrth ddyfarnu'r wobwr iddi, meddai Dirprwy Rheolwr Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam, Emma Jones:

"Mae hi mor braf gallu gwobrwyo a dathlu gwaith caled unigolion fel Bethan. Bydd ei phrofiad a'i hymdrech yn ysbrydoliaeth i eraill gobeithio".

Mudiad Meithrin - arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
www.meithrin.cymru

PWLL TRAP

Llongyfarchiadau mawr i Daniel O'Callaghan ar ennill ei radd meistr o Brifysgol Caerdydd. Ymfalchiwn, hefyd, yn ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion lle cafodd 3ydd yn yr unawd bariton ac am lefaru o'r ysgrythur yn ogystal a bod yn aelod o wahanol gorau a ymddangosodd ar y llwyfan. Gwelwyd ef, hefyd, yn cyfeilio ar y fflwt a'r piano. Pob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd gyda ITV Cymru.

Llongyfarchiadau, hefyd, i Olwen Roberts, Penparc ar

ddod yn 2il yn y llefaru yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Penblwydd hapus i Emyr Jenkins, Llwyndu, a Steffan Jones, Dolannog, y ddau wedi dathlu penblwydd arbenig ym mis Awst.

Bu farw Susan Taylor, Marwyn, Heol Ffynnongain. Cydymdeimlwn a'i gŵr, Colin, a'r merched ar eu colled.

Priodasau Aur



Roedd Phil ac Ann Jones, Cwmteg, yn dathlu eu Priodas Aur ar Awst 12fed Fe'u priodwyd yng Nghapel y Graig, Trelech.



Hefyd, roedd brawd Ann, Glanmor Williams a'i wraig, Margaret yn dathlu eu Priodas Aur ar Fedi 2ail. Priodwyd hwy yn Bethel, Llanddewi Efelffre.

Llongyfarchiadau i'r ddau gwpwl.

FFENESTRI/
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, PVC
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 / 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb-2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

WYN'S TYRES
BRECIU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Llongyfarchiadau i William Griffiths, Glascoed ar ei briodas a Hannah Thomas, Drysgol Goch, Llanfyrnach. Hefyd, i Dr. Iwan Griffiths (Maesyrhaf) a Beth ar eu priodas ar Awst 20fed

Mae Marlene Lewis, Hafan Glyd, nawr yn hen famgu. Ganwyd bachgen bach, Tomi John Jenkins ar Awst 22ain i Ceri, (wyres Marlene) ac Aled.

Llongyfarchiadau i Roy a Mair, Cilborth, Heol Bethlehem ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt ar Fedi 8ed.

Bethlehem Newydd

Fe fu Dilwyn Thomas, Rhydygors yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed yn ystod mis Gorffennaf. Dymunir penblwydd hapus iawn iddo.



Hefyd, dymunwn benblwydd hapus i Joan Evans, Glen View oedd yn 90 oed ar Awst 20fed. Yn y llun gwelir hi yn torri ei chacen penblwydd yng nghwmni ei gor-ŵyrion, Luca a Mila.

Hefyd, roedd Iris Morgan, Gorsfach, yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed a hynny ar Awst 29ain. Penblwydd hapus iddi hi.

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Marian Thomas, sydd wedi derbyn llaw-driniaeth yn Ysbyty Treforys. Roedd Marian, hefyd, yn dathlu penblwydd arbennig ar Awst 26ain.

Mae Sally Davies, hefyd, wedi derbyn llaw-driniaeth a hynny ar ei phenglin. Dymunwn wellhad buan iddynt hwythau.

Bu farw Brian John, gynt o Tŷ Capel, a'i wraig Brenda yn Hwlfordd. Roedd Brian yn gefnder i Huw Davies, Glynderi. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

....hefyd â Les Evans ar farwolaeth ei chwaer-yng-nghyfraith Megan Morris, ym mis Awst.

Tŷ Croeso

Yr apêl dros y misoedd diwethaf oedd casgliad tuag at brynu dillad gwely cynnes i'r lloches yng Nghaerfyrddin erbyn y gaeaf. Cyflwynwyd 15 dwfe a 30 gobennydd i'r lloches a roeddent yn hynod ddiolchgar. Hefyd, gyda'r arian oedd weddill fe brynwyd dillad nos cynnes i'r plant yn y lloches. Diolch i bawb a gyfranodd eto at yr apêl hwn.



Yn y llun gwelir aelodau'r gynulleidfa ym Methlehem Newydd gyda'r dwfes a gobennyddion a gasglwyd.

Yr elusen a gefnogir nesaf fydd Llyfrau Llafar Cymru sy'n darparu deunydd ar CD i'r rheiny sy'n cael trafferth gweld. Mae'n costio £50 000 y flwyddyn i redeg yr elusen hon. Cynhelir dau ddigwyddiad i gefnogi'r elusen. Y cyntaf fydd Darllenathon a gynhelir ym Methlehem Newydd ar Hydref 1af o 10 o'r gloch tan 4 y prynhawn pryd y bydd rhai yn darllen y Salmau ac o'r Testament Newydd. Os hoffech ddarllen, noddi un o'r darllenwyr neu helpu i ddarparu paned a fydddech yn fodlon cysylltu â'r gweinidog, Annalyn, Rhian White neu Beti-Wyn James os gwelwch yn dda.

Yna bydd noson gan Gymdeithas Tŷ Croeso i gloi'r Apêl yn yr Hen Ysgol ar Hydref 19eg.

PENYBONT

C.Ff.I. Penybont

Llongyfarchiadau i'r aelodau sydd wedi eu hethol yn swyddogion CFFI Penybont eleni :

Gwenllian Phillips - Cadeirydd

Elen Jones - Is-Gadeirydd; Ffion Thomas - Ysgrifennydd

Daniel O'Callaghan - Is-Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Cymdeithasol

Steffan Richards - Trysorydd

Elan Thomas, Hannah Richards - Is-Drysoryddion.

Bu'r misoedd diwethaf yn rhai llwyddiannus iawn i'r clwb. Ym marnu stoc gwartheg godro yn Sioe'r Great Yorkshire, enillodd Olwen Roberts y gystadleuaeth o dan 16 oed. A llongyfarchiadau i dîm Sir Gâr am gipio'r wobwr gyntaf gydag Elan Thomas hefyd yn aelod o'r tîm hwnnw.

Yn y Sioe Fawr yn Llanellwedd, daeth mwy o lwyddiant i aelodau'r clwb o dan faner Sir Gâr.

1af i'r Hysbyseb Teledu, ac i Olwen ac Elan yn y Barnu Stoc Merlod.

2il i'r grŵp canu

3ydd i'r arddangosfa ac i Cadi mewn her sgiliau ar y pryd.

Pleser o'r mwyaf oedd cyflwyno siec o £1,170 i Wyn Thomas, ar ran elusen Tir Dewi.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u rhoddion hael wrth i'r clwb godi'r arian tra'n canu carolau y llynedd.



Cyflwyno sic i Tir Dewi

HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Mae tymor newydd o addoli wedi dechrau ar ôl yr haf ac rydym yn cwrdd yn wythnosol am 9.30 ac 11.00 ar yn ail.

Cawsom wythnos drist iawn ar ddiwedd mis Gorffennaf pan gynhaliwyd tri gwasanaeth angladdol yn y capel o fewn pump diwrnod.

Roedd Gerald Harris yn wr addfwyn a thawel. Roedd yn ffyddlon tu hwnt i oedfaon y capel ac yn annwyl iawn i'w deulu i gyd. Bowls oedd ei brif hobi ac fe wnaeth gyfraniad anferthol i fydd y bowls yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Unig blentyn y Parchg Huw ac Elsie Francis oedd Ann Francis. Fe wnaeth ddisgleirio yn yr ysgol ac yn y coleg. Gallai Ann siarad yn ddoeth ar unrhyw bwnc ac roedd hi yn gwmni difyr ac yn llawn hiwmor.

Fe wnaeth Gerwyn Williams fyw bywyd tu hwnt o llawn gan gyfrannu i bron bob cymdeithas a mudiad yn Hendy-gwyn am dros saith deg mlynedd. Roedd yn ddyn teulu arbennig ac ef yn ogystal oedd ein hanesydd fel capel ac fel tref.

Rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant gyda'r tri theulu yn eu galar a'u colled.



Nôl yng Ngorffennaf fe wnaeth Meurig Davies ddathlu pen-blwydd arbennig yn 80 mlwydd oed a llongyfarchiadau mawr iddo wrth bawb yn y capel.



Cynhaliwyd priodas yn y capel yn ystod mis Awst a dymunwn bob bendith ar Jonathan Thomas a Hedydd Wilson wrth iddynt ddechrau ar eu bywyd priodasol.

Hefyd cafwyd ein trip blynyddol dros yr haf a hynny yng nghanol y tywydd twym ofnadwy ar ddechrau Gorffennaf. Fe wnaethom ymuno gydag aelodau'r Priorddy, Caerfyrddin ar gyfer ei hoedfa wythnosol. Cafwyd oedfa hyfryd dan ofal y Parchg. Beti-Wyn James cyn i bawb ymuno i gael paned neu ddiod oer yn yr awyr agored. Yn y prynhawn aethpwyd ymlaen i dreulio'r prynhawn yn y Gerddi Botaneg.



Ymuno mewn oedfa yn y Priorddy, Caerfyrddin

O edrych ymlaen mae gyda ni oedfa arbennig ar Hydref 23ain. Bydd capeli ac eglwys Hendy-gwyn yn dod at eu gilydd ar gyfer gwasanaeth i gofio am bawb a gollwyd, am unrhyw reswm, yn ystod cyfnod y covid. Croeso cynnes i bawb i'r oedfa yma ac i weddill yr oedfaon.

Rydym yn gobeithio cael aelodau newydd i ymuno gyda ni'r wythnosau nesaf yma yn ogystal â chael plant newydd i ymuno gyda'r Ysgol Sul. Os oes diddordeb gan rywun, cysylltwch gyda Meryl James ar 01994 240 350.

Diolch:

Hoffai teuluoedd Gerald Harris, Ann Francis a Gerwyn Williams ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod cyfnod anodd iawn. Bu cymorth a chefnogaeth teulu, ffrindiau a chymdogion o gymorth mawr iddynt yn ystod yr wythnosau diwethaf yma. Diolch o galon i bob un.

Cywydd :

Dyma gywydd a luniwyd gan y prifardd Mererid Hopwood, Caerfyrddin ar gyfer gwasanaeth angladdol ei ewythr Gerwyn Williams. Diolch i Mererid am ganiatâd i gyhoeddi'r cywydd yn y Cardi Bach.

Wncwl Gerwyn

Un gŵr, un wncwl Gerwyn,
un Dat, un brawd ac un dyn
a oedd yn ŵr bonheddig
o fore oes, bôn i frig;
un diwyd, a'r teidiaf
yn y nyth, un oedd a'i 'wnaf'
ac 'wdw glei' 'u lygaid glas
yn enwog eu cymwynas;
sbwylai Mags am sbele maith,
rhoi i hon wên ar unwaith,
a'r groser roes gownteri
i bicnic ein pwnniau ni;
ond, heb os, Eileen Clyde Banc
ag iaith ei hafiaith ifanc
fu'n cynnau golau 'i galon -
doedd alaw fel alaw hon;
i Sir Gâr, Pencar y co -
tegwch ei holl Bontiago -
a gariodd Wncwl Gerwyn,
ac yn hir bu'n llenwi'r llun
â chyfoeth yr archifydd
drwy gael at y stori gudd,
hawliodd ddod ein Hywel dda
i oes y fory nesa' -
ddeilen ar ddeilen, fe ddaeth
â'n hanes yn hunaniaeth;
rhagor, yn bedwar ugen,
rhoes Meals on Wheels i'r gwir hen!,
rhoi iaith gwaith i Hendy-gwyn:
geiriau a gwaith oedd Gerwyn.
A rhyw haf daeth awr hwyrhau,
awr i roi'r hen storïau,
fel rhoi pen ar obennydd,
i dangnefedd diwedd dydd;
yn eisiau dim, ond nos da
anwyla'r gusan ola',
a'i chael, heb angen chwilio,
gan ei Siân - cusan y co'.
A heddiw mae ei wreiddyn - yn dawel
flodeuo'n ein priddyn,
yn rhoi 'nôl, drwy'r wyrion hyn,
barhad holl gariad Gerwyn.


Mererid Hopwood

GERWYN WILLIAMS**Diolch**

Dymuna Sian Pugh a'r teulu, ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a chefnogaeth a dderbyniwyd yn ystod profedigaeth tad a thadcu annwyl Gerwyn Williams.

Penblwydd Hapus yn 90 oed

Cyfarchion pen-blwydd i Mair Phillips yn 90 oed. Bu Mair yn dathlu gyda theulu a ffrindiau ar y 27ain o Awst.

Penblwydd Hapus yn 100 oed

Llongyfarchiadau a Dymuniadau gorau i Mr Howard Gibbon, Pwll y Whead, Hendy-gwyn a fu'n dathlu ei benblwydd yn 100 oed ar y 3ydd o Fedi. Bu'n dathlu ei benblwydd arbennig gyda theulu a ffrindiau yng Ngwesty Nantyffin.

HOELION WYTH - Cangen Hendy-gwyn

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor ar Nos Iau, Medi 1af yn Lolfa Clwb Rygbi Hendy-gwyn.

Y siaradwr gwadd oedd un o'r aelodau, sef Tegwyn Williams o San Cler.

Bu Tegwyn ar ei wyliau yn America gan ymweld â nifer o da-leithiau. Dewisodd ugain o luniau o'r holl oedd wedi ei dynnu a thrwy gyfrwng y rhain, bu'n son am yr hyn a dynodd ei sylw fwyaf. Cafwyd golwg ar Chicago, New Orleans, Memphis a Missisipi a disgrifiodd Tegwyn yr hyn oedd wedi gweld yn y taleithiau yma.

Bu'n gyflwyniad diddorol dros ben a diolchwyd i Tegwyn gan Mel Jenkins.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Megan Lowri Davies, Y Berllan, Heol y Gogledd, ar dderbyn gradd BA mewn Hanes o Brifysgol Aberystwyth.



y Fam Christine a Haydn Lewis yn arwyddo'r Fendith

Canolfan Genedlaethol Hywel Dda Arwyddo'r Fendith

Ym Medi 2021 cynhaliwyd digwyddiad Drws Agored Cadw ar safle'r hen fynachlog yn Hendygywyn. Frindiau'r Fynachlog ynghyd â Phwyllgor Hywel Dda fu'n gyfrifol am drefnu'r achlysur. Sefydlwyd y fynachlog ym 1151, yr un gyntaf Sistersiaidd yng Nghymru ac felly y fam abaty i'r lleill i gyd gan gynnwys Ystrad Fflur. Adfail sydd yno bellach ond mae pwysigrwydd hanesyddol yr abaty a'r awyrgylch arbennig sydd yno yn aros.

Mae cysylltiad pwysig rhwng yr abaty a Hywel Dda oherwydd mae'n debyg taw mynach o'r abaty fu'n gyfrifol am Lawysgrif Peniarth sef un o'r enghreifftiau cynharaf o ddeddfau Hywel a ffurfiwyd yn y ddegfed ganrif.

Buodd y digwyddiad yn yr abaty yn boblogaidd iawn llynedd a bendithiwyd yr agoriad gan y Fam Christine o Abaty'r Groes Sanctaidd, Hendygywyn, Abaty Sistersiaidd arall. Ar Awst 16eg eleni felly, cynhaliwyd seremoni arbennig yng Nghanolfan Hywel Dda pan wahoddwyd y Fam Christine ac aelodau o'r Pwyllgor i arwyddo copi ffurfiol o'r Fendith. Rhoddwyd un copi i'r Fam Christine ac fe gedwir y llall yn y ganolfan.

Ar hyn o bryd mae trefniadau ar y gweill i drefnu digwyddiad tebyg eleni draw ar safle'r hen abaty ac mae croeso cynnes i baw i ddod. Bydd rhagor o fanylion ar y wefan cyn bo hir.




Ithel Parri Roberts a Haydn Lewis yn darllen y Fendith

CLUNDERWEN

Llongyfarchiadau i Peter a Mary Phillips, Landsdown, ar enedigaeth gor-wyr iddynt, mab i Ashley a wŷr cyn-
taf i Louise a Lyndon, Arberth. Croeso i Ifan bach.

Penblwydd hapus i Martin James, Bronwydd a fu'n ddathlu ei ben-blwydd yn 60 oed dechrau mis Awst.



Llongyfarchiadau i Mrs Betty Thomas, Aston Villa, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 20fed o Fedi. Cariad mawr oddi-wrth Albert a'r teulu i gyd!

Sioe

Oherwydd Covid, nid oedd yn bosib i'r pwyllgor drefnu sioe eleni. Ar y funud olaf, cynhaliwyd taith dractorau a daeth nifer fawr i gefnogi. Aeth y daith drwy bentre Clunderwen, lawr i'r Gelli, Penffordd, Maenclochog, Mynachlogddu gan aros dros ginio ger carreg Waldo, yna nôl i Llandysilio. Cafwyd diwrnod ardderchog a

codwyd arian er budd elesennau lleol. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod nes mlaen yn y mis er mwyn dechrau trefnu Sioe Clunderwen yn Awst 2023.



Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Russell Edwards, gynt o Heol-y-Llan, Llandysilio a bu farw'n sydyn. Bu'r angladd yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth.

....hefyd â Brynmor ac Angela Thomas, Brynderwen ar golli chwaer sef Mair Eynon, Glandy Cross, Efailwen.

.... hefyd â Marilyn a'r teulu wrth iddynt golli gŵr, tad a thadcu annwyl sef John Pritchard, Rhywoga.

Diolch personol Lynys

Ar Orffennaf 8fed bu dathlu penblwydd mowr yn tŷ ni! Yn lle parti, penderfynais gael dydd agored gyda llawer o deulu a ffrindiau yn galw!

Daeth Owen y mab hynaf a'i deulu adre am wythnos o'r Amerig. Braf iawn oedd eu gweld, tro cyntaf ers pedair blynedd! Cawsom dywydd arbennig a lot o hwyl a sbri yn dal fyny a phawb! Penderfynais nad oeddwn am anrhegion ond os y dymunwyd rhoddion tuag at Cerebral Palsy... achos sydd yn agos iawn i ni fel teulu. Rwyf am ddiolch yn fawr i bawb am yr holl gardiau, blodau, anrhegion, negeseuon, galwadau ac yn fwy na dim am y rhoddion caredig tuag at yr achos.

Gwerthfawrogaf y cyfan yn fawr iawn. Derbyniwyd y swm anrhydeddus o £1,300. *Diolch yn fawr iawn.*

NEWYDDION BLAENCONIN

Llwyddiant yn y Llwyd o'r Bryn

Llongyfarchiadau gwresog i'r cyfaill Siôn Jenkins yn dilyn ei llwyddiant ysgubol yng Nghystadleuaeth **Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn**, 21 oed a throsodd yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022.

Mae Siôn wedi bod yn cystadlu yn yr Eisteddfod am flynyddoedd lawer ac wedi cael llwyddiant ar y llwyfan sawl gwaith. Gwyddom am ei ddawn fel bardd ac mae ei gyfansoddiadau wedi ennill clod ac anrhydedd. Bellach, mae ei ddawn fel saradwr cyhoeddus wedi cael ei gydnabod ar lwyfan y Brifwyl. Da iawn Siôn !

Gemau'r Gymanwlad

Profodd un o gyfeillion yr Eglwys llwyddiant yn y pwll nofio yng Ngemau'r Gymanwlad yn Birmingham yn ddiweddar gan gyrraedd final y Freestyle.

Mae Daniel Jervis wedi cystadlu ym Mhencampwriaeth y Byd ddwywaith ac yn y Gemau Olympaidd yn Tokyo yn 2020.

Cyfrannodd Daniel i un o fyfyrddodau'r Eglwys ym mis Awst 2021. Llongyfarchiadau Daniel !

Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Braf yw cael cyhoeddi fod y daith gerdded flynyddol i'w chynnal dydd Sadwrn, 24ain Medi 2022.

Mae dyddiad y daith gerdded yn hwyrach eleni am fod prysurdeb mawr yn yr ardal ar ddechrau'r mis.

Mae'r daith i ddechrau yng Nghwm Miles a gorffen yng Nghalfaria, Login. Bydd lluniaeth yn festri Login i bawb ar ddiwedd y daith.

Nid yw'r daith gerdded yn hir ond mae'n estyn cyfle i Aelodau'r Eglwys gymdeithasu gan godi arian tuag achosion da ar yr un pryd.

Yr elusennau fydd yn derbyn nawdd eleni yw : Clefyd y Siwgr; Ambiwlans Awyr Cymru a Meddygfa Preseli, Crymych

Taer erfynnir ar aelodau holl Eglwys i'r Gymdeithas i gefnogi'r daith gerdded.

Bwriedir cyflwyno'r arian nawdd i'r achosion da mewn noson arbennig yn Neuadd Llanboidy, nos Wener, 2il Rhagfyr. Mwy o wybodaeth am y noson yn agosach i'r dyddiad.

OEDFAON MIS HYDREF

Dydd Sul, 9fed am 10.30 y bore - Oedfa Gymundeb

Dydd Sul, 16 eg am 10.30 y bore - Oedfa bregeth

Dydd Sul, 23ain am 10.30 y bore - Oedfa bregeth

Dydd Sul, 30 ain am 10.30 y bore - Oedfa bregeth

  
Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
 Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

Gareth Glanville
SAER COED
 Llwynpinner Fach
Hendywynn ar Daf
SA34 0RA
Ffôn: 01994 240173
Symudol: 07779 112192
Gwaith safonol - cysylltwch am bris

Gerald Llewellyn a'i Fab
Peirianwyr Gwresogi
a Phlymwyrr
Am y dewis gorau o ffynau i'r gegin
Nwy neu Olew
CELT • AGA • RAYBURN • SORN
  
Dryslwyn, Clunderwen
Ffôn: 01437 563589

NEWYDDION o'r FFYNNON**Ymwelwyr**

Daeth llond bws o ymwelwyr i'r Ffynnon ar ddechrau mis Medi gyda'r bwriad o ddilyn ôl traed Waldo a dysgu ychydig am yr Eglwys ym mlwyddyn dathlu tri chan mlynedd yr achos. Geraint Davies, un o ffyddloniaid y Ffynnon, oedd yn gyfrifol am groesawu'r cyfeillion ac adrodd holl hanes yr Eglwys.

NEWYDDION o'r BRYN

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o aelodau'r Eglwys ym mis Medi a braf yw cael cyhoeddi fod pawb o blaid cynnal oedfaon a chyfarfodydd i'r dyfodol. Cynhelir oedfa o Ddiolchgarwch yn ystod mis Hydref gyda'r bwriad o drefnu cinio dydd Sul yn Sanclêr ar Dachwedd 20fed. Mae bywyd a brwdfrydedd ar y BRYN !

LLANDYSILIO**Graddio**

Llongyfarchiadau i Catrin Jones, Nyth ni, ar dderbyn gradd BSc. 2.1 mewn Therapi Galwedigaethol 2020 o Brifysgol Caerdydd. (dwy flynedd yn ôl)



Llongyfarchiadau i Emma Morris, merch Andrew a Jenny Morris ar dderbyn gradd Meistri mewn Fferyl-liaeth, yng Nghaerdydd, 2 flynedd yn hwyr.



Llongyfarchiadau i Nia Lloyd ar dderbyn gradd BA Cymraeg Prof-fesiynol, Dosbarth 2018 -2021. Hefyd pob lwc yn Ysgol Bro Preseli fel athrawes Gymraeg.

Dyweddio

Llongyfarchiadau mawr i Ben Pridmore a Mollie Coleman ar ddyweddio ar 27ain o Orffennaf. (llun)

...hefyd i Kara Hughes a Joe Hodgson ar 4ydd o Fedi.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda theulu Russell Edwards, Green Cottage, Llandysilio, gŵr Rose, annwyl dad i Linda a Lisa, tadcu, hen ddatcu a brawd annwyl. Bu farw yn sydyn ar Gorffennaf 22ain.

....hefyd â theulu John oedd arfer bod yn y Bush Llandysilio.

SHWLDIWMWL.CYMRU

CRYSAU WEDI ARGRAFFU A SIOP AR-LEIN

sales@shwldimwl.cymru 01994 448626

TAF AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00

MASNACHWYR ADEILADU

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn. 01437 563300

Ymddeol

Dymunwn ymddeoliad hapus i Jayne Thomas, Derlwyn, Llandysilio. Colled fawr i Ysgol Brynconin.

Priodas Dda

Llongyfarchiadau mawr i Chris Thomas, mab Jayne a Brian Thomas, Derlwyn Llandysilio ac Alice Thomas ar eu priodas. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

Eisteddfod Genedlaethol

Llongyfarchiadau i Sion Jenkins ar ennill prif gys-tadleuaeth llefaru, sef Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron eleni. Cafodd Sion wythnos brysur iawn yn arwain ar lwyfan y Pafiliwn ac hefyd yn cyflwyno rhaglenni ITV Cymru.

Pel-droed Cymru

Llongyfarchiadau mawr i Angharad James ar ennill ei 100fed cap yn chwarae pêl-droed i dîm Merched Cymru.

Angharad yw canwriad ieuengaf Cymru, llwyddiant mawr. Cyn ddisgybl o Ysgol Brynconin ac Ysgol y Preseli. Merch Clive a Sarah James. Pob lwc iddi yn y dyfodol.

Cymry ar Ganfas

Roedd Mari Phillips gynt o Llandysilio, sef merch Rob a Diane Phillips, ar raglen Cymry ar Ganfas. Rhaglen i ddathlu

Pride, pan fu Mari yn siarad a'r newyddiadur ddarlledwr Owain Wyn Evans, am ei fywyd ac yna yn peintio llun ohono yn cynnwys elfenau o'i fywyd. Da iawn Mari a phob lwc yn y dyfodol.

Penblwydd

Dymunwn benblwydd hapus iawn i Haulwen Pridmore, Garth Owen, Llandysilio yn 50 oed ar 6ed o Fedi.

Tîm Enduro

Daeth llwyddiant i dîm Enduro y Sir ym mhencamp-wriaethau Enduro y byd ar y penwythnos 27ain a 28ain o Awst yn Ffrainc. Roedd Simon Hammersley, o Llandysilio yn aelod o dîm SJS/Willcock. Ar ôl tri diwrnod o gystadlu, gorffennodd y tîm o dri yn y 7fed allan o 76 o dimoedd ar eu beic Quad 450R Yamaha. Tipyn o gamp.

Pwyllgor Neuadd Llandysilio

Cofiwch allwch ymuno â ni ar bwyllgor Neuadd Llandysilio, ar yr ail nos Lun o bob mis, yn Neuadd Llandysilio am 7.30. Byddai'n braf i'ch gweld.

Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio

Dros y 2 fis dwethaf rydym wedi cynnal Helfa Drysor yn Amroth wedi ei drefnu gan y Sefydliad y Sir, a noson dysgu gweu neu gwinio.

Croeso i chi ymuno â ni ar nos Lun cyntaf o bob mis yn Neuadd Clunderwen am 7.30.

CYLCH MEITHRIN LLANDYSILIO



**Neuadd Llandyslio, Llandysilio,
Clunderwen, Sir Benfro SA66 7SY**

**Ar Agor: pob bore
9.00 yb - 12.00**

Arweinydd: Liz Lewis

Rhif Ffôn: 07760135392

neu: cmlandysilio@outlook.com

Rhif Elusen Cofrestredig - 1089716

Cylch Ti a Fi Llandysilio

**I blant 0-4 oed a'i
Rhieni/gwarchodwyr**

Pob prynhawn Mercher

12.00 - 1.30yp

£2.50

Neuadd Llandysilio



Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau gwresog i Lewis Pusey ar dderbyn gradd mewn Seiberddiogelwch oddi wrth Prifysgol De Cymru. Oddi wrth deuluoedd Castellgwyn-Isaf a Fern Villa Llandysilio.

Cymdeithas yr Hoelion Wyth yn cefnogi elusen Tir Dewi

Cynhaliwyd dwy noson wych o adloniant yng nglwb bowllo Tregaron yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion ar ddechrau mis Awst.

Bu Bois y Rhedyn yn ein diddanu ar y nos Sul a Clive Edwards ar y nos Fercher. Cafwyd cefnogaeth dda i'r ddwy noson ac o ganlyniad, codwyd swm sylweddol o arian tuag at elusen Tir Dewi. Cafwyd anerchiadau gwych gan John "Cwmbetws" Davies a Carys Angharad ar ran Tir Dewi ar y nos Sul a gan Wyn Thomas ar y nos Fercher. Byddwn yn cyflwyno sic o £1375 i'r elusen yn fuan.

Diolchodd Eurfyl Lewis, Cadeirydd Cymdeithas yr Hoelion Wyth yn ddiffuant i Bois y Rhedyn a Clive Edwards am ddarparu adloniant arbennig; i bawb

wnaeth fynychu'r nosweithiau drwy brynu tocynnau yn ogystal a'r raffl; i glwb bowllo Tregaron am gael cynnal y nosweithiau yno; i bawb wnaeth gyfrannu gwobrau raffl, gan gynnwys Wyn Evans wnaeth gyfrannu botel o win coch Malbec P15. Mae Cymdeithas yr Hoelion Wyth wedi codi bron i £59,000 drwy gynllun gwin Meibion y Mimosa a gwerthwyd y botel olaf yma, yn ôl Eurfyl, am bris o £100!



Eurfyl Lewis, Clive Edwards a Wyn Thomas



Bois y Rhedyn gyda merch Carys Angharad, Tir Dewi



COLIN JOHN
Llewelyn Davies
 Cyfrifwyr Siartredig
 Hendygywn
 01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

ARWYDDION A DYLUO
BOOMERANG
 SIGN & DESIGN
 01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
 UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
 CRYMYCH, SIR BENFRO



CARIAD O BETH CARDI BACH

YSGOL BECA

Croesawu ein Pennaeth dros dro Mrs Giles

Hoffwn fel ysgol estyn croeso mawr i Mrs Mai Giles, ein pennaeth newydd dros dro yn Ysgol Beca. Croeso mawr i chi i deulu Beca. Dyma ambell air oddi wrth Mrs Giles.

'Braint yw cael y cyfle i fod yn bennaeth dros dro yn Ysgol Beca. Edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda'r staff, y Corff Llywodraethol a'r rhieni er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn parhau i fynd o nerth i nerth.'

Croesawu disgyblion newydd i'r ysgol

Ar ddechrau blwyddyn newydd yn Ysgol Beca hoffwn groesawu disgyblion newydd i Ysgol Beca. Mae tri disgybl newydd wedi ymuno â Charn Gyfrwy sef Asher, Jac a Kara. Mae'r disgyblion wedi mwynhau eu diwrnodau cyntaf ac wedi llwyr ymroi i fywyd ysgol yn barod. Pob lwc i chi blant a mwynhewch bob munud.

Prynhawn goffi Macmillan

Ar y 30ain o Fedi byddwn yn cynnal prynhawn goffi er mwyn codi arian i Macmillan. Bydd y digwyddiad yn dechrau am 2yp a byddwn yn cynnig te a choffi a chacennau. Croeso cynnes i bawb.

Llysgenhadon Efydd



Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar aelod o ddosbarth Cwm Cerwyn am gael eu hethol yn Llysgenhadon Efydd eleni. Da iawn i Efan, Eli, Charlie a Carys. Byddant yn gyfrifol am annog ymarfer corff ar draws yr ysgol ac yn hyrwyddo bywyd iach.

YSGOL GRIFFITH JONES

Croeso

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd, croesawyd 29 o blant newydd i'r ysgol. Gobeithio y byddant yn ymgartrefu'n gyflym gyda ni. Pleser hefyd yw medru croesawu aelodau newydd o staff atom sef Miss Miriam Lennon-Jones, Miss Dawn Davies, Miss Ceri Rees, Mrs Christina John a Mrs Katie Thomas. Pob dymuniad da iddynt fel aelodau o deulu Griffith Jones.

Siarter Iaith



Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol yng Ngorffennaf, dathlwyd yr ymdrech a wnaethpwyd gan lawer o'n disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol. Cyflwynwyd medalau i'r plant a lwyddodd i gasglu 100 o docynnau iaith yn ystod y flwyddyn. Bydd ein hymdrech i weithio tuag at wobwr aur y Siarter iaith yn parhau eleni.

Gŵyl Canol Dre



Bu nifer o blant yr ysgol yn llwyddiannus yn y gys-tadleuaeth gelf Gŵyl Canol Dre.

Cyfnod Sylfaen

1af - Sophie Sherriff

2ail - Llion Jones

3ydd - Rhys Cook

Cyfnod Allweddol 2

1af - Naomi Miller

Canmoliaeth Uchel:

Alex Darby

Lewis Thomas-Wigley.

Llongyfarchiadau mawr.

Gêm bêl-droed Staff yn erbyn y disgyblion



Cafwyd gêm agos a chyffrous iawn ar brynhawn Iau olaf tymor yr haf. Daeth pawb allan i gefnogi. Gwelwyd sgiliau arbennig gan y ddau dîm ond y staff oedd yn fuddugol eleni.

YSGOL BANCYFELIN



Pleser oedd cyflwyno copi yr un o'r Beibl i ddisgyblion bl. 6 Ysgol Bancyfelin ar ddiwedd tymor yr haf. Pob lwc iddynt yn Ysgol Bro Myrddin.

YSGOL BRO BRYNACH

Croeso nol i'r holl ddisgyblion ar ddechrau blwyddyn newydd. Edrychwn ymlaen at bennod newydd i'r ysgol o dan arweiniad Mrs Mai Giles. Croeso twymgalon iddi fel pennaeth dros dro yr ysgol. Croeso hefyd i ddisgyblion newydd yr ysgol, mae 13 o ddisgyblion wedi dechrau mis Medi yma.



Ar ddiwedd tymor yr haf cafwyd wythnos brysur yn yr ysgol. Gyda'r tywydd yn fendigedig ar ddiwedd y tymor, cafodd y disgyblion gyfle i oeri wrth cael diwrnod hwyl gyda llithren a balwnau ddŵr. Er, cafodd y staff hwyl hefyd a'r plant yn mwynhau taflu a thasgu dŵr atynt. Cafwyd hwyl yn gwylio ffilmiau ar ddiwedd y tymor, gan fwynhau danteithion blasus. Diolch i Llawn Cariad, San Clêr am y cyfraniad hael o'r siocled.

Ar Ddydd Mercher, 13eg o Orffennaf cynhaliwyd gwasaneth gwobrwy yn Neuadd y pentref, braf oedd cael bod nol yn y neuadd a chael presenoldeb rhieni. Buodd yn brynhawn hwylus gyda disgyblion yn derbyn gwobrau am weithio'n galed ac yn ddiwyd yn ystod y flwyddyn ac hefyd gwobrwy talentau ifanc yr ysgol. Uchafbwynt y gwobrwy yw gwobr Mr Henry, cyn bennaeth Ysgol Llanboidy. Enillwyd y darian eleni gan Jessica Davies am ei chyfraniad i'r ysgol dros y blynyddoedd a'i hagwedd bositif tuag at ddysgu a bywyd yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr i Jessica ac i weddill y disgyblion, Gweler isod restr o'r enillwyr.

Gwobr Mr Henry – Jessica Davies

Gwobr Dyfal Donc – Poppy Conroy

Gwobr Ymdrechwr – Jazmine Davis

PREN DA

Gwaith coed o bob math

Dafydd Makepeace

Fferm y Cross

Llandysilio

Clunderwen

Ffôn 07967 220289

DERI PAGE CIGYDD



Cig o'r ansawdd gorau

Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230062

Diolch am eich cefnogaeth

GRIFFITHS Cym.
Hen - Dy - Gwyn

CONTRACT WYFRABIAID DU
Gwasanaethu Cyflawn
Wernddu
Stryd y Brenin Edward
Hendy-gwyn ar Daf
SA34 0AA
Ffôn: 01994 240534
Ffôn: 01994 240534
Symudi: 07966 411443

Gwobr Parch – Drystan King
 Gwobr Technegwr Digidiol – Otis Cole
 Cymro y flwyddyn - Jasper Coope
 Cymraes y flwyddyn – Greta Williams
 Gwobr Athletwr – Hayden Hughes
 Gwobr Athletwraig – Ruby Chaplin
 Gwobr Perfformwraig – Ella Morris
 Gwobr Cerddor – Isaac Bramwell
 Disgybl y flwyddyn:
 Blwyddyn 5 – Grace Boothroyd
 Blwyddyn 4 – Bella Davies
 Blwyddyn 3 – Hannah Cowley
 Blwyddyn 2 – Willow Coope Boothroyd
 Blwyddyn 1 – Edward Rodenhurst
 Derbyn – Deri Anthony
 Meithrin – Lucy Davies



Llongyfarchiadau i Miss Amber Edwards ac Ioan sydd wedi priodi dros yr haf. Pob hwyl i chi'ch dau ar gyfer y dyfodol.



Bl. 6 gyda Miss Gibby a Mr Lemon

Ar ddydd Gwener olaf y tymor cafwyd gwledd allan ar y porfa, mwynheuoedd y disgyblion 'Sgod a Sglod' a bwffe i'r staff a llywodraethwyr. Diolch i Mr Jonathon Balfour am baratoi yr holl fwyd ac i Mrs Cynthia Phillips am weini. Ar ôl y cinio blasus cafwyd gwasanaeth ffarwelio i Mr Mathew Lemon, gyda'r plant yn cyflywno rap am ei amser yn yr ysgol. Roedd yn brynhawn braf o chwerthin a dathlu.

Llongyfarchiadau i Miss Mari Gibby a Jason ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar.

Cofiwch eich bod yn gallu cyfrannu hen ddillad yn y 'bin dillad' sydd tu fas adeilad yr ysgol. Mae'r dillad yn cael eu cyfrannu i elusennau ac mae'r ysgol yn derbyn cyfraniad ariannol amdanynt.

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
 HEOL SALEM
 SANCLER

FFONIWCH
 Y RHEOLWRAIG
 01994 230855

PHIL & SION HARRIES
 SEIRI COED

EFAIL FACH
 HENLLAN AMGOED

FFÔN:-
 01994 240857

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
 Tractorau Newydd ac Ail-law
 Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS

a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR
 Trydanwyr

Siop Radio a Theledu
 CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589



MASNACHWYR ADEILADU DAVIES

Cyflenwyr Adeiladu a D.I.Y.
 Arddangosfa Ceginau
 ac Ystafelloedd Ymolchi
 ar agor



Heol yr Orsaf
 Hendygwyn

Ffôn:
 01994 240228



**ARBENIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**



MOT



•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

**•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS
•BATRIS •WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN
•TYMHERU AER**

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

George's
o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



Pysgod - Sglodion - Risols Selsig - Cyw lân - Dioddydd

Ar agor Llun i Sadwrn

11.30 - 20.30

Croeso i chi archebu

ar y ffôn

01994 231482

Heol yr Orsaf,

San Clêr



Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**



Nifer y dyddiau

Hydref

Llun 3 Iwerddon - Kerry a Dingle 6

Tachwedd

Gwe 4 Riviera Lloegr - Twrci a Tinsel, Paignton 4

Gwe 11 Gwesty Warner - Littlecote Swydd Berkshire 4

Sad 19 Nadolig ar y Coblau (Coronation Street) 2

Sad 19 Sioe Gerdd - My Fair Lady, CMC 1

Sad 19 Bae Caerdydd 1

Gwe 25 Ffair Nadolig Gwesty'r Metropole, Llandrindod 3

Sad 26 Gwyl Olau Longleat 2

Rhagfyr

Sad 3 Llwybr Goleuadau Palas Blenheim 2

Sad 10 Nadolig Gerddi Kew 2

Sad 17 Sioe Gerdd - Les Misérables, CMC 1

Sad 17 Bae Caerdydd 1

Gwe 23 Nadolig yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod 5

Ionawr

Sad 21 Sioe Gerdd - Bussy Malone, CMC 1

Sad 28 Sioe Gerdd - Strictly Ballroom, CMC 1

Llyfryn newydd 2023 ar gael nawr!!

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!

Nifer y dyddiau

Chwefror

Gwe 24 Riviera Lloegr - Paignton 4

Ebrill

Sad 24 Sioe Gerdd - Jersey Boys, CMC 4

Llun 26 Gwesty Warner - Nidd Hall, Swydd Efrog 4

Sad 29 Sioe Gerdd - The Bodyguard, CMC 1

Mai

Sad 6 Sioe Gerdd - Charlie & The Chocolate Factory, CMC 1

Llun 15 Hyfrydwch Sir Licoln 5

Llun 22 Petalau, Pabi a Phorslen 5

Sad 27 Sioe Gerdd - The Commitments, CMC 1

Mehefin

6 a 7 Coldplay - Stadiwn Principality (Bws yn unig) 1

20 a 21 Harry Styles - Stadiwn Principality (Bws yn unig) 1

Mer 21 Diwrnod y Merched - Royal Ascot 3

Mer 28 Yr Alban - Ucheldiroedd, Tren & Dolffiniaid 7

Gorffennaf

25 a 26 Sioe Frehinol Cymry 1

Awst

Llun 7 Eisteddfod Genedlaethol Cymru 6

Gwe 11 Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1

Duw ar waith

Tom Defis yn myfyrio ar gyfraniad Cymorth Cristnogol wrth iddo ymddeol

Mae Tom Defis yn ymddeol fel aelod o staff Cymorth Cristnogol ar ôl 29 mlynedd. Cafodd Dyfed Wyn Roberts sgwrs gydag ef ar ddiwedd pennod go arbennig.

Wel, Tom, mae'r diwrnod mawr wedi cyrraedd! Sut wyt ti'n teimlo am y peth?

Teimlad rhyfedd a dweud y gwir, gan fod gwaith Cymorth Cristnogol wedi bod yn weinidogaeth ac yn alwedigaeth, ac yn rhan ganolog o fywyd ac o fywyd y teulu. Mi fydd bywyd yn wahanol, er wrth gwrs y bydd Cymorth Cristnogol yn cael lle amlwg o hyd. Rwy'n digwydd bod yn Drysorydd Cyfundeb yr Annibynwyr ac mae'r Undeb wedi ymrwymo i drafod ymgyrch Cymorth Cristnogol ynglŷn â newid a chyfiawnder hinsawdd ac wedi cytuno i gynnal apêl enwadol i gefnogi Cymorth Cristnogol flwyddyn nesaf. Ond fel pawb sy'n ymddeol, mi fydd cyfle i ymlacio gobeithio.

Beth aiff a dy amser di wedi i ti ymddeol?

Mi fydd yn braf cael rhoi mwy o amser i'r teulu ac yn arbennig yr wyrion Corran a Serian sydd yn dod yn bobl ifanc bellach, a'r ddau fach Tristan ac Efa. Bydd cyfle i wneud mwy ar y tyddyn sydd gyda ni ac i gefnogi'r gwaith gofal am y defaid, y geifr, y moch a'r alpacas sydd yma.

Y mae Canolfan Heol Dŵr yn brosiect sefydlu canolfan Gristnogol a Chymunedol Gymraeg yng Nghaerfyrddin. Fel un o'r ymddiriedolwyr a chadeirydd y Ganolfan, mi fydd llawer o waith i'w wneud yno. Rwy'n aelod o nifer o fudiadau yn Sir Gaerfyrddin, felly bydd digon i'w wneud, yn y dyfodol agos beth bynnag.

Ar ôl 29 o flynyddoedd, mae'n siŵr fod gen ti lawer iawn o atgofion? Be ydi'r peth sy wedi rhoi mwyaf o bleser iti yn y gwaith?

Yr wyf wedi cael pleser mawr yn cydweithio gydag ymgyrchwyr, cefnogwyr, yr eglwysi a'r enwadau yn ogystal â phobl yn y cymunedau, sydd wedi bod yn hael eu cefnogaeth i'r gwaith, a hefyd mae ymweld ag ysgolion i rannu am y gwaith wedi bod yn bleser. Y pleser mwyaf yw gweld effaith gwaith ein cefnogwyr yma yng Nghymru ar waith ein partneriaid, a'r newid sydd yn digwydd yn eu cymunedau yn sgil hynny. Mae wedi bod yn ffrainc i gael bod yn rhyw ddolen gyswllt rhwng y partneriaid yma yng Nghymru a'r partneriaid yn y gwledydd lle mae Cymorth Cristnogol yn gweithio. Rwy wedi cael cyfle i rannu stori'r tlawd a chael ymateb cadarnhaol.

Rwyt ti wedi cael cyfle i deithio dramor sawl gwaith i weld gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol; be sy'n aros yn y cof o'r teithiau hynny?

Un o'r pethau rwy wedi teimlo ar hyd y blynyddoedd yw mai'n braint ni yw cael gweithio gyda'r tlawd a'r

rhai sydd dan ormes. Nid gweithio dros y tlawd, nid ni'n rhoi a nhw'n derbyn ond cydweithio i nerthu'r gwan, codi pobl ar eu traed i gynnal eu cymunedau a lleihau gormes. Rhai o'r pethau sydd yn aros - tlodi eithafol yn Affrica ac Asia, canlyniad gormes a thrais yn Guatemala ac yn arbennig ym Mhalestina, effaith trychinebau sydd yn taro rhai ardaloedd tro ar ôl tro fel Haiti a Chanolbarth America.

Ond hefyd cofio gweld effaith gwaith Cymorth Cristnogol, y llawenydd a'r gwerthfawrogiad sydd yn cael ei ddangos gan bobl sydd yn derbyn cymorth a chefnogaeth. Gweld plentyn 9 oed wedi gwella o ddiffyg maeth eithafol yn Nghanania, gwagedd yn gweithio'n galed i adeiladu cronfa ddŵr allweddol yn Zimbabwe. Gweld teuluoedd yn Nicaragua yn ail adeiladu eu bywydau ar ôl swami a rhai yn Haiti yn symud i mewn i gartref o'u tai sianti ar ôl daeargryn anferth. Sylweddoli dylanwad ymgyrchoedd cymod, a ffoaduriaid yn dathlu cael mynd adref i Guatemala, ac yna cael rhan yn y trefniadau, ac eistedd o gwmpas ford bwyd gyda meddygon a oedd yn Israeliaid, a hynny mewn pentref a chymuned o Balestinaid yng Ngwlad yr Iesu.

Am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd, mae tlodi eithafol ar gynydd yn y byd; fyddi di'n colli gobaith weithiau?

Y mae'n gallu bod yn anodd ac yn rhwystredig weithiau ac mae rhywun yn cynhyrfu pan fydd gweithgarwch y cyfoethog yn effeithio'n andwyol ar y tlawd. Fel gyda grawn ar hyn o bryd. Oherwydd y prinder, y mae'r cyfoethog yn prynu'r cynnyrch heb ofidio bod y tlawd heb ddim, neu fod y pris yn mynd y tu hwnt i gyrraedd y tlawd. Mae hyn wedi digwydd ynglŷn â'r brechlyn Cofid hefyd, lle mae'r gwledydd cyfoethog wedi meddiannu'r cyflenwadau. Er gwaethaf hynny rhaid peidio colli gobaith ond dyfalbarhau yn y gwaith, gan gofio bod pod cyfraniad mewn rhodd neu ymgyrch a gweithred yn gwneud gwahaniaeth. Rwy wedi sylweddoli bod Duw yn troi ein cyfraniadau bach ni i fod o fendith fawr i eraill. Nid gormod o dlodi yw problem fawr ein byd, ond effaith gormod o gyfoeth. Cyfoeth sydd yn meddiannu adnoddau'r byd, a'r tlawd yn dioddef.

Rydan ni'n byw mewn Cymru ôl-Gristnogol meddai rhai, beth ydi rôl asiantaeth cymorth ryngwladol wedi ei seilio ar ffydd yn y Gymru fodern?

Y mae Cymorth Cristnogol yn rhoi cyfle i eglwysi a Christnogion i gydweithio ac i gyd dystio i'w ffydd yn eu cymunedau. Gobeithio bod gwaith Cymorth Cristnogol o'i drefnu'n iawn yn ddatguddiad o Dduw ar waith yn y byd. Tystiolaeth o Gariad Duw mewn byd sydd yn brin iawn o gariad, ac sydd yn mynnu gwneud elw i'r hunan o bob gweithred. Rwy'n cofio clywed un o'n partneriaid ni o'r India yn ateb cwestiwn, "Beth mae Cymorth Cristnogol yn ei olygu i chi sydd o ffydd arall?". A'i hateb hi oedd, "bod Cymorth Cristnogol yn rhoi heb ofyn am ddim yn ôl". Duw ar waith.

Pa neges sydd gennyt ti i eglwysi Cymru wrth iti ymddeol?

Wel dau beth, gair o ddiolch am bob cefnogaeth am bob ymgyrch a chyfraniad, ond gair o anogaeth i barhau i wneud gwahaniaeth. Yr eglwysi yw Cymorth Cristnogol, rhy'n ni fel mudiad yma yn llais i ddweud y stori ac yn freichiau i ymestyn cymorth yr eglwysi. Cofiw'n mai'r eglwysi sydd berchen ar Cymorth Cristnogol ac mai gwaith Duw yw'r cyfan. Cyfrannwch yn hael, ymgyrchwch yn gadarn a gweddiwch yn daer am lwyddiant. Bydd Duw yn bendithio'r gwaith.

Meddai Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru:

'Bydd colled enfawr yng ngorllewin Cymru ar ôl Tom. Mae ef a Cymorth Cristnogol yn un yn y rhanbarth a bydd cefnogwr yn gweld ei eisiau. Hoffwn ddiolch o galon iddo am ei gyfraniad mawr dros 29 o flynyddoedd a dymuno bendith Duw arno ef, Anona ei wraig, a'r teulu oll yn ei ymddeoliad.'

Er bod Tom yn ymddeol bydd gwaith Cymorth Cristnogol yn parhau. Bydd y gwaith yng ngorllewin Cymru yn awr yn uno gyda'r de a'r gogledd. Ychwanegodd Mari: 'Ryn ni'n gwybod y bydd haelioni ein cefnogwyr yng ngorllewin Cymru yn parhau. Diolch am hynny. Er mwyn eu cefnogi yn eu hymdrechion gofynnwn iddynt gysylltu â swyddfa cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru yng Nghaerdydd sydd yn fan cyswllt cyntaf ar gyfer pob cyswllt ac ymholiad Cymru-gyfan, a ble bydd Helen ac Eleri yn falch o allu eu helpu gyda'u hymholiadau.'

Gellid cysylltu â'r swyddfa trwy e-bostio

cymru@cymorth-cristnogol.org

neu trwy ffonio 029 2084 4646.



Tom yng nghwmni Mari McNeill

'Plentyn y Ddaear'

Cynhelir y Ddarlith Flynyddol eleni yn Ystafell y Cyn-gor, y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth am 5.30pm nos Wener, Medi 30 ain. Y darlithydd gwadd fydd Mererid Hopwood.

Mae'n bosib archebu tocynnau ymlaen llaw neu drefnu gwrando'n fyw ar y we. Cysylltwch â: cymraeg@aber.ac.uk neu 01970 622021. Gweler yr hysbyseb. Trefnir yr achlysur ar y cyd gan Gymdeithas Waldo ac Adran Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth. Drannoeth cynhelir Waldodhon pan fydd ugain o arweinyddion grwpiau ar draws Cymru yn trefnu darllen tua 20 o gerddi'r un o waith Waldo. Gwahoddir unigolion ar draws y wlad i noddi'r darlleniadau fesul £5 y gerdd.

Trefnir yr achlysur gan Alun Ifans.

Waldodhon

Meddai'r Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd:

"Mae boddhad i'w gael bob amser wrth droi at gerddi Waldo. Pleser ychwanegol yw eu darllen yn uchel, gan brofi'r rhythmau pwerus a sain esmwyth y geiriau. Ar ben hynny, bydd yr achlysur yn codi arian i gadw'r cof am y bardd yn agos at glust ei wlad. Bydd yn brofiad i'w werthfawrogi ar sawl cyfri!"

Mae Cymdeithas Waldo, Sefydliad Josef Herman ac Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth yn cynnal:

Darlith Waldo 2022

'Plentyn y Ddaear'

Darlithydd:
Mererid Hopwood



Medi 30 2022

5.30pm
(gweinir te/coffi o 5pm)

Ar-lein ac yn Ystafell y Cyn-gor, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Er mwyn archebu tocyn i ddod i'r digwyddiad neu i ymuno ar-lein, cysylltwch â:
cymraeg@aber.ac.uk | 01970 622137

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH Cymdeithas Waldo Williams Josef Herman Arts Foundation Sefydliad Celf Josef Herman

OWEN PHILLIPS

Llanddewi Efelldre

SAER COED



Ffôn Symudol:
07919 524569



G&S Llewellyn a'i Mab



Contractwyr Amaethyddol

Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX

Ffon: 01437 563320

olew oil

Trefigin

Y Gwasanaeth sy'n Gwrsog



Worin to our Service

Gwmsi annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg

881630 www.trefigin-cymru.com 881282



Coffi a Chlonc:

Mae'r sesiynau yma sydd wedi cael eu cynnal ers cychwyn y cyfnod clo yn parhau. Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd lau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru.

Paned a Sgwrs:

Yn ddiweddar mae'r Fenter wedi dod yn rhan o sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Atom, pob dydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl. I gofrestru, cysylltwch gyda alma@mgsg.cymru.

Taith fygi:

Rydym wedi ail-gychwyn ar ein sesiynau teithiau bygi poblogaidd yn y dair ardal, sef Hendygywyn-ar-Daf, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin. Mae'r teithiau yn ymgynnull am 10:15yb ac yn cychwyn am 10:30yb ym mhob ardal. Ymunwch â ni am gyfle i sgwrsio, gwneud ychydig o ymarfer corff ac am wac hamddenol. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw gan fod nifer cyfyngedig yn gallu mynychu yn dilyn canllawiau'r llywodraeth. Cysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru i gofrestru.

Sesiynau stori:

Rydym yn ail-gychwyn sesiynau stori mewn pedair ardal sef Caerfyrddin ar ddydd Llun yng Nghanolfan Chwarae Sgiliau am 10:30am. Yn Maesycrugiau/Llanllwni ar ddydd Mawrth, yn Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni am 10:30am. Yn San Clêr ar ddydd Mercher, yn Y Gât am 10:30am ac yng Nghastell Newydd Emlyn ar ddydd Mercher yn Llyfrgell Castell Newydd Emlyn am 10am. Ymunwch â ni mewn sesiwn stori ac ychydig o ganu pob pythefnos. Cysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru i gofrestru.

Clybiau Drama:

Mae'r Fenter a Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3, ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn y Stiwdio, Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Cyfle i blant dysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gydag alma@mgsg.cymru. Diolch i Theatrau Sir Gâr am y croeso cynnes i'r theatr yn wythnosol.

Clwb Garddio:

Mae'r Fenter yn cydweithio gyda Cered – Menter Iaith Ceredigion i drefnu Clwb Garddio yn Yr Ardd, Pont Tyweli. Pob ail ddydd Sadwrn y mis o 11yb-1yp. Cyfle i blannu a thyfu llysiau, ffrwythau a blodau. Croeso i bawb; oedolion a theuluoedd (angen oedolyn yn bresennol gyda phlant a phobl ifanc o dan 18 oed). I gofrestru: llinos.hallgarth@ceredigion.gov.uk neu ymholiad@mgsg.cymru

ceredigion.gov.uk neu ymholiad@mgsg.cymru

Beicio Mynydd:

Mae'r Clwb Beicio Mynydd yn ôl! Croeso i flynyddoedd 6, 7 ac 8 i ymuno â'r clwb yn Byrgwm, Brechfa pob nos lau o 5-7yh. Niferoedd cyfyngedig felly cysylltwch gydag alma@mgsg.cymru i gofrestru.

NEWYDD Gig y Cyhoeddi:

Fel rhan o ddathliadau Gŵyl y Cyhoeddi yn Sir Gâr, mae'r Fenter yn cynnal gig yn Cwrw, Stryd y Brenin ar y 30ain o Fedi am 8.30pm, gyda Morgan Elwy a Bald Patch Pegi. Mae'r tocynnau am ddim, ond rhaid archebu o flaen llaw gydag alma@mgsg.cymru

NEWYDD Taith ysgolion – Shwmae Sumae:

I ddathlu Diwrnod Shwmae Sumae eleni, mae'r Fenter yn mynd ar daith ysgolion yn ardal Caerfyrddin a Dyffryn Taf, edrychwn ymlaen at ddychwelyd i'r ysgolion wedi'r haf.

NEWYDD Parti Calan Gaeaf:

Mae'r Atom a'r Fenter yn cynnal Parti Calan Gaeaf yn Yr Atom ar y 31ain o Hydref rhwng 10am-12pm. Bydd y bore yn cynnwys sesiynau chwarae anniben, gemau, crefftiau, amser stori a chystadleuaeth gwisg ffansi. £1 y plentyn dros 12 mis. Cysylltwch â helo@yratom.cymru neu alma@mgsg.cymru i gofrestru.

NEWYDD Un Noson Ola Leuad:

Mae Un Noson Ola Leuad gan Theatr Bara Caws yn dod i Gaerfyrddin ar yr 2il o Hydref yn Neuadd San Pedr am 7:30pm. Tocynnau am £8 /£10 wrth alma@mgsg.cymru (tocynnau yn mynd yn gyflym felly archebwch yn syth).

Cynnau goleuadau Nadolig:

Rydym yn edrych ymlaen at ddathliadau Cynnau Goleuadau Nadolig Caerfyrddin gyda Chyngor Tref Caerfyrddin, nodwch y dyddiad yn eich dyddiaduron sef 19eg o Dachwedd rhwng 10am-5pm. Mwy o wybodaeth i ddilyn.

NEWYDD Noson Siopa Nadoligaidd:

Ar nos Wener y 25ain o Dachwedd, bydd yr Atom ar Fenter yn cynnal noson siopa Nadoligaidd yn Yr Atom rhwng 5pm a 8pm. Os oes diddordeb gyda chi mynychu gyda stondin, cysylltwch gyda heledd@mgsg.cymru neu helo@yratom.cymru. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Cyfyngau Cymdeithasol:

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfyngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost - ymholiad@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.



Gŵyl Bro'r Preseli 2022

Hydref 12fed~27ain

Nos Fercher, Hydref 12fed 2022 am 7.30yh yn Theatr y Gromlech

NÔL I NYTH CACWN

Cwmni Ddoe a Heddi mewn cydweithrediad â Theatr Troedyrhiw

Tocynnau: £10.00 / Plant Ysgol £5.00

Nos Lun Hydref 17eg am 7.30yh

Yng Nghanolfan Ddysgu Gymunedol y Preseli, Crymymch

Agoriad Swyddogol Arddangosfa o Grochenwaith gan Lowri Davies a Iluniau gan Mari Phillips.

Nos Fercher, Hydref 19eg am 7.30yh yn Theatr y Gromlech, Crymymch

Traddodir Darlith gan Y Prif Gwnstabl Dr Richard Lewis

Testun: 'Dyfodol Plismona yng Nghymru'

Cadeirydd : Comisiynydd yr Heddlu, Dafydd Llewellyn

Mewn cydweithrediad â Fforddion Dyfed

Nos Wener, Hydref 21ain am 7.30yh yn Neuadd y Dderwen, Rhosygilwen

Noson o Sgwrs a Chân yng nghwmni Non Parry—'Paid a bod Ofn'

Tocynnau £10.00

Dydd Sadwrn, Hydref 22ain yng Nghanolfan Hermon



Gŵyl Fach yr Hydref i Ddysgwyr a thaith gerdded i bawb

Nos Lun Hydref 24ain am 7.30yh yn Yr Hen Ysgol , Eglwyswrw



Cwis Wes Gleï Gwobr £50 a Tharian Her Cware Trefign i'w gadw am flwyddyn

Nos Iau Hydref 27ain am 7.30yh yn Theatr y Gromlech

Cwmni Theatr Bro'r Preseli yn cyflwyno

Fflachiadau o'r Gorffennol

Cyfres o ganeuon a ysgrifennwyd gan Richard Jones i'r Cwmni dros y 40 mlynedd diwethaf.

Tocynnau £10 Oedolion / Plant £5.00

Am fwy o wybodaeth a thocynnau cysylltwch â : gwylbropreseli@gmail.com

Canolfan Ddysgu Gymunedol y Preseli—01437 770180





Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



DYDDIAD	TEITHIAU 2022	PRIS	DIWRNODAU
Sul 2 - 6 Hydref	Dambusters & Lincolnshire Heritage	£490	5 Diwrnod
Sad 8 - 12 Hydref	Magnificent Isle of Man - GOGONEDDAU YNYS MANWY	£485	5 Diwrnod
Gwe 14 - 17 Hydref	WESTON SUPER MARE	£280	4 Diwrnod
Gwe 21 - 24 Hydref	PENWYTHNOS DDIRGEL MIS HYDREF	£330	4 Diwrnod
Gwe 21 - 24 Hydref	LOOE & THE CORNISH COAST	£300	4 Diwrnod
Gwe 28 - 31 Hydref	PENWYTHNOS YN BIDEFORD	£280	4 Diwrnod
Gwe 4 - 7 Tachwedd	TAITH UCHELWYDD A GWIN yn DARTMOOR	£300	4 Diwrnod
Llun 14 - 18 Tachwedd	TWRCI A THINSEL YN DYFFRYN GWY	£395	5 Diwrnod
Gwe 18 - 20 Tachwedd	MARCHNAD NADOLIG YN CHATSWORTH HOUSE	£225	3 Diwrnod
Gwe 25 - 29 Tachwedd	CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO	£430	5 Diwrnod
Gwe 25 - 27 Tachwedd	MARCHNADOEDD NADOLIG - MAENCEINION A CAER	£215	3 Diwrnod
Llun 28 Tach - 2 Rhag	BELGRAVE SANDS, TORQUAY A TINSEL	£355	5 Diwrnod
Gwe 9 - 12 Rhagfyr	TWRCI A THINSEL YN BABBACOMBE	£245	4 Diwrnod
Gwe 30 Rhag - 2 Ionawr	DATHLU Y FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON	£425	4 Diwrnod
Gwe 13 - 16 Ion 2023	ADUNIAD BLYNYDDOL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY	£230	4 Diwrnod
Gwe 20 - 23 Ion 2023	PENWYTHNOOS ARBENNIG YN GWESTY'R PALACE PAIGNTON	£230	4 Diwrnod
Chwefror 2023 i/g	Rygbi y Chwe Gwlad ALBAN v CYMRU yn CAEREDIN	??	4 Diwrnod
Chwefror 2023 i/g	DISNEYLAND PARIS yn ystod Gwyliau'r Ysgol	ffoniwch	4 Diwrnod
Gwe 10 - 12 Mawrth 23	CLIVE a'i Ffrindiau yn diddanu yn y CELTIC CAERNARFON	£220	3 Diwrnod
Llun 21 - 24 Chwefror	DISNEYLAND PARIS yn ystod Gwyliau'r Ysgol	???	4 Diwrnod
Llun 28 Chwef - 4 Maw	Amser Hamddenol yn STREET	£275	5 Diwrnod
Gwener 4 -7 Mawrth	DARTMOOR ac ARFORDIR DE DEVON	£275	4 Diwrnod
Sadwrn 12 -15 Mawrth	GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - St AGNES	£270	4 Diwrnod
Sul 13 - 14 Mawrth	NOSON YN GWESTY WALDORF, LLUNDAIN	£185	2 Ddiwrnod
Gwener 18 -20 Mawrth	CLIVE a'I FFRINDIAU yn diddanu yn y CELTIC CAERNARFON	£215	3 Diwrnod
Gwener 25 -28 Mawrth	PENWYTHNOS CABARET YN TORQUAY	£250	4 Diwrnod
Llun 28 Maw - 1 Ebrill	Prydferthwch SOUTH DOWNS yn BOGNOR REGIS	£335	5 Diwrnod
Iau 31 Maw - 4 Ebrill	MÔRDAITH GWATWAROL LLANDUDNO	£425	5 Diwrnod
Iau 7 - 11 Ebrill	CAEAU BLODAU'R ISELDIROEDD	£495	5 Diwrnod
Gwener 8 - 11 Ebrill	PENWYTHNOS I Ymlacio yn DULYN	£345	4 Diwrnod
Gwener 22 - 25 Ebrill	PENWYTHNOS YN GWESTY BELGRAVE SANDS TORQUAY	£299	4 Diwrnod
Llun 25 -29 Ebrill	RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU	£450	5 Diwrnod
Llun 2 - 6 Mai	Mordaith llong ar Gamlas LERPWL a MAENCEINION	£465	5 Diwrnod
Gwener 6 - 8 Mai	CRWYDRO TAFARNDAL WETHERSPOONS	£195	3 Ddiwrnod
Gwener 13 - 16 Mai	PENWYTHNOS Braf YN GWESTY PALACE PAIGNTON	£300	4 Diwrnod
Sadwrn 14 - 20 Mai	CRWYDRO O AMGYLCH YNYS HARDD JERSEY	£660	7 Diwrnod
Mawrth 17 - 19 Mai	MEN & MOTORS 1V	£265	3 Diwrnod
Sul 22 - 25 Mai	PUDDING CLUB (Noson blasu pwddinau) & COTSWOLDS	£345	4 Diwrnod
Iau 26 - 28 Mai	SIOE FLODAU CHELSEA	£299	3 Diwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau

Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni

01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk




PENBLWYDD HAPUS



Pen-blwydd Hapus i Gwilym Huw Rooke a oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 3 oed ar Orffennaf 30ain. Cariad mawr Mami, Dadi, Gruffudd Llewelyn, Mamgu Waunfach, Grandma a Grandad Ffairfach a'r teulu i gyd.



Penblwydd hapus i Gwenno Rebecca Jones, Blaenau a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 6 oed ar y 19eg o Fedi. Cariad mawr wrth Dad, Mami, Sara; Mamgu a Tadcu Bancyfelin a'r teulu i gyd.



Pen-blwydd hapus i Griff yn 6 oed ar Fedi 21ain. Bachgen bach doniol, drygionus a chariadus. Mwynha dy barti a'r holl ddathliadau Griff! Oddi wrth Dad, Mam, Efan, Mamgu Llinos, Geraint, Hen Dadcu Roy, Mamgu a Dadcu Pennant a'r teulu oll. xxx



Penblwydd hapus i Mabli Hodge, o Llandysilio a fydd yn dathlu ei phenblwydd cyntaf ar Fedi'r 30ain. Cariad mawr wrth Dad a Mam a'r teulu i gyd.



Penblwydd hapus i Aurora Hammersley a fydd yn 6 oed ar y 15fed o Fedi, wyres Wendy Smith. Cariad mawr wrth Gu ar teulu.



Penblwydd hapus yn 1 oed ar ddiwedd mis Gorffennaf i Edie Phillips, merch fach Zoe a Paul Phillips, wyres Gail a Tery Morris a gor-wyres Kathy Phillips, Central.






Gaeafgysgu ...



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae saith cysgadur yn y byd yn ôl y pennill traddodiadol – y draenog coed, yr ystlum bach, y crwban araf, y neidr werdd, y llyffant llwyd, y wiwer fach a'r broga. Fedrwch chi ddyfalu pa greadur sy'n cuddio y tu ôl i'r llythrennau unigol a pha greadur sydd ar goll?



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/10/22

Jessica a Chloe Mason o Bwll-Trap yw enillwyr Cystadleuaeth Platiau Pert.
Ateb: Plât rhif 4 brynodd Owen.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2022



Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

Cyflwyno sic i Cwn Tywys Cymru



Llun o sic am £1,060 yn cael ei gyflwyno i "Cwn Tywys Cymru". Codwyd yr arian mewn cyngerdd gan y Corran Singers a'r unawdydd Peter Totterdale, a gynhaliwyd yng Nghapel Bwlchnewydd ym mis Mehefin.

Cyflwynwyd y sic i Heulwen Howells, ei gŵr Alan a'i gi tywys Cracker. Diolch yn fawr i bawb a wnaeth gefnogi'r gyngerdd.

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr



ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd Ffôn: 01994 448310
Llangynin Ffacs: 01994 448693
San Clêr e.bost:
SA33 4LD enquiries@allpump.co.uk

Dartiau

Rhian Griffiths – Chwaraewr dartiau



Mae Rhian Griffiths, sy'n enedigol ac wedi ei magu yn San Cler, wedi gwneud cryn enw iddi ei hun ym myd y dartiau. Dechreuodd chwarae dartiau rhyw 20 mlynedd yn ôl pan wnaeth lenwi mewn yn nhîm ei chwaer, Catrin, pan roedden nhw un chwaraewr yn brin mewn cystadleuaeth yn y Llew Du, San Cler. Chwaraeodd mewn cynghrair lleol, yna'r cynghrair "super" a'r Sir cyn ei dewis i chwarae dros Gymru. Bu'n chwarae'n broffesiynol tan 2016 pryd y cymerodd seibiant o'r dartiau ac yna daeth Covid a rhoi stop ar bopeth. Ni fu'n chwarae am sawl blwyddyn.

Fe'i perswadwyd gan ei phartner i godi'r dartiau eto a chystadlu yng nghyfres Merched y PDC. Gorffennodd yn 6ed wedi 12 cystadleuaeth sy'n golygu iddi ennill yr hawl iddi gystadlu fel y 6ed detholyn allan o wyth yn y "Women's World Matchplay." Cynhaliwyd y twrnament ar ddiwedd Gorffennaf yn y Winter Gardens yn Blackpool. Cafodd gêm dda iawn yn y gystadleuaeth, gan ddod o 3 – 0 lawr i 3 – 3 ac yna enillodd Lorraine Winstanley o 4 i 3.

Yn diweddar bu'n chwarae yn yr Almaen yng nghyfres merched y PDC, cyfres a ddechreuodd yn yr Almaen gogyfer â'r World Match Play 2023. Mae 24 gêm yn y gyfres a bydd yr 8 uchaf yn ennill eu ffordd i'r rownd derfynol. Cyrhaeddodd Rhian dwy gêm pedwar olaf, ac un cyn-derfynol ac un 64 olaf. Bydd yn chwarae nesaf yn Wigan ym mis Hydref yna aros i weld ble fydd yn cystadlu y flwyddyn nesaf.

Dywed Rhian fod dartiau yn gêm y gellid ei chwarae ar unrhyw oedran, o 8 i 80 ac mae'n gobeithio bydd gweld merched fel hi yn cystadlu ar y teledu yn denu mwy o ferched i godi'r dartiau. Ymfalchiwn fel ardal yn llwyddiant Rhian yn gorffen yn 6ed yn y byd yn Match Play ac edrychwn ymlaen i glywed mwy o'i hanes ym myd y dartiau.

Emrys ac Ann Murrow

Motel Nantyffin Llandissilio



Bwyty • Neuadd Wleda
ar gyfer priodasau,
cynadledau, dawnsfeydd,
cyngherddau



Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas OPTEGYDD

Croeso i gleifion GIG!



Profion golwg GIG ar gael
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan



CYMERADWYEDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

Clwb Rygbi San Cler

Tim cyntaf

Bu'r bechgyn yn chwarae yn erbyn Cydweli mewn gem baratoadol yn ystod mis Awst. Gwnaethant hefyd chwarae adref yn erbyn Penclawdd, gan ennill o 7 pwynt i 5 a chwarae i ffwrdd yn erbyn Dinbych y Pysgod, gan ennill o 12 pwynt i 5. Gwnaeth y bechgyn chwarae gem gynghrair gyntaf y tymor i ffwrdd yn erbyn Hwlfordd gan ennill o 15 pwynt i 12. Roedd y sgor terfynol yn adlewyrchiad teg o'r gem, o gofio am yr ymdrech a penderfyniad y garfan ifanc o chwaraewyr dan arweiniad y capten newydd, Jac Howells. Diolch o galon i'r garfan gyfan, ynghyd a'u hyfforddwyr am eu hymrwymiad llwyr wrth baratoi ar gyfer y tymor. Rydym yn datblygu carfan gystadleuol tu hwnt, roedd hyn yn amlwg yn ystod y gemau paratoi yn erbyn Cydweli, Penclawdd a Dinbych y Pysgod. Dymuna swyddogion a pwyllgor y clwb bob llwyddiant i'r tîm yn ystod y tymor.

Dyma restr y gemau dros yr wythnosau nesaf :-

Medi:

17eg - Gem gwpan i ffwrdd erbyn Cwmgors

24ain - i ffwrdd erbyn Neyland

Hydref:

1af - adref erbyn Doc Penfro

8fed - i ffwrdd erbyn Tregaron

15fed - Gem gwpan adref erbyn Tregaron

22ain - adref erbyn Ty Ddewi

Tim Datblygu

Bydd y tim datblygu yn chwarae yng nghynghrair Llanelli & District yn erbyn Pontyberem, Furnace, Llangennech, Felinfoel, Porth Tywyn, Rhydaman, Y Tymbl, Athletic Caerfyrddin a Cefneithin. Dymunwn bob llwyddiant i'r tim a'u hyfforddwyr yn ystod y tymor

Tim Sgarlets y Gorllewin Dan 16 oed

Mae tim Sgarlets y Gorllewin dan 16 oed yn ymarfer yn San Cler (chwaraewyr o Sir Benfro, Ceredigion a De Orllewin Caerfyrddin). Gwnaethant chwarae gem yn San Cler yn erbyn tim Gweilch y Dwyrain yn ddiweddar ac roedd hi'n hyfryd gweld cynulleidfa fawr yn cefnogi'r

bechgyn. Tim y Sgarlets enillodd y gem, da gweld cynrychiolaeth o San Cler yn y tim.

Timau Mini a Iau

Dymunwn bob llwyddiant i'r timau mini a iau yn ystod y tymor, dewch i'w cefnogi ar bob cyfle posib. Edrychwch ar ein cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth llawn o'r gemau.



Lluniau Chris Rees

Rasus Beic Modur gyda Ceir Ochr



Llongyfarchiadau i Michael a Tim Phillips o Llanboidy, ar ennill y wobwr gyntaf a dod yn bencampwyr Prydain 2022 mewn rasmus beic modur gyda ceir ochr.

parhad o dudalen 44

Griffiths un cais yr un. Llwyddodd Emily Griffiths gyda 4 trosiad.

Dyma restr y gemau sydd i ddod :-

Medi 11eg - adre erbyn Senghennydd

18fed - dim gêm

25ain - adre erbyn Pencoed yn y Cwpan

Cynhelir sesiynau ymarfer bob nos lau am 6.30 ar Barc Llwyn Tŷ Gwyn - croeso i bawb i ddod i ymuno gyda ni.

Mae'r timau merched dan 12, 14, 16, ac 18 wedi dechrau nôl ac yn ymarfer bob nos Fercher ar Barc Dr Owen rhwng 6 a 7 o'r gloch - croeso cynnes i bawb.

Tîm Ieuenctid

Mae gan y tîm ieuenctid hyfforddwyr newydd tymor hwn sef Shane Williams ac Andrew Worthing, gyda Max Howells yn ymuno ambell wythnos i helpu gyda'r sgrymie a'r llinelle. Roedd si ar led na fyddde tîm gyda ni tymor hyn, ond rydym wedi dechrau'r tymor gyda 18 o chwaraewyr, gyda rhagor i ddod. Cynhaliwyd gêm gyntaf adref yn erbyn Hwlfordd, gêm arbennig gyda llawer o redeg a llawer o geisiau. Sgoriodd Tyler Reynolds a Lewis Jones dri cais yr un a llwyddodd Lennon Reynolds gyda 5 trosiad.

Dyma restr y gemau sydd i ddod:-

Medi 10fed - I ffwrdd erbyn Dinbych y Pysgod

17eg - I ffwrdd erbyn Penfro

24ain - adref erbyn Aberystwyth

Plant

Pob tîm wedi dechrau nôl ar Medi 4ydd.

Dan 8 - adref erbyn Neyland a Dinbych y Pysgod mewn gemau ymarfer

Dan 9 - ennill adref erbyn Llangwm

Dan 10 - ennill adref erbyn Castell Newydd Emlyn



Tîm Ieuenctid y clwb



Tîm merched y clwb

Clwb Pel-droed Llanboidy



Tymor 2022-2023

Dechreuodd tymor 2022-2023 CPD Llanboidy yn swyddogol ar y 16eg Awst gyda gem gyntaf y tymor i'r tîm cyntaf. Paul Williams a Dafydd Makepeace yw hyfforddwyr y tîm cyntaf eleni gyda Rob Morgan a Dan Arnold yn hyfforddi'r ail dîm.

Yn anffodus, mae'r Clwb wedi colli sawl chwaraewr da dros yr Haf, gyda rhai yn ymuno a thimau arall yn yr adran, ac amryw o resymau arall. Diolch yn fawr iddynt am eu gwasanaeth i'r clwb dros y blynyddoedd diwethaf. Er hyn, rydym wedi croesawu ambell wyneb newydd, a gobeithio eu gweld yn setlo mewn yn y clwb yn llwyddiannus.

Ers 16eg Awst, mae'r tîm cyntaf wedi chwarae 5 gem, gan golli 4 a cael 1 gem gyfartal. Er hyn, braf gweld

perfformiadau da, yn enwedig gan bod nifer o wynebau newydd yn y tîm. Dyma'r canlyniadau a'r sgorwyr i'r clwb hyd yma:

Colli 2-1 yn erbyn Llandudoch; gol gan Gethin Scourfield.

Colli 4-1 yn erbyn Ffostrasol; gol gan Dafydd Jones.

Gêm gyfartal 3-3 yn erbyn Llechryd; goliau gan Jac Healey (2) ac Owain Gibbin.

Colli 5-2 yn erbyn Crymmych; goliau gan Nick Jones (2)

Colli 8-3 yn erbyn Felinfach; goliau gan Caleb Young, Ryan Pearce a Nick Jones.

Er y dechrau siomedig i'r tymor, gobeithio bydd y canlyniadau yn dechrau gwella fel mae'r tymor yn mynd ymlaen. Nid yw'r ail dîm wedi dechrau ar ei gemau eto, ond maent yn edrych ymlaen at ei gemau cyntaf sydd yn erbyn Llechryd, Maesglas, Llandysul a Bargoed Rangers.

Rydym o hyd yn edrych am chwaraewyr newydd i'r clwb – mae'r ymarferion yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ar gae Dandre, Llanboidy pob nos Fawrth am 6yh. Cofiwch hefyd ein bod yn chwilio am noddwyr i'r clwb, ac os oes diddordeb gyda chi neu yn adnabod rhywun sydd â diddordeb – cysylltwch gydag Eirlys Williams ar pauleirlys@btinternet.com. *Rhodri Lewis*

CHWARAEON

Clwb Criced Hendygwyn

Daeth tymor 2022 i ben gyda'r tîmau i gyd, o'r tîm dan 9 i fyny i'r tri tîm dynion ac hefyd y tîmau merched wedi rhoi o'u gorau. Gyda cymaint o ddigwyddiadau wedi gohirio dros y blynyddoedd diwethaf i eleni roedd cael digon o bobl i chwarae, yn enwedig ar Ddydd Sadwrn, yn tipyn o gur pen. Serch hyn llwyddwyd i gael tri tîm allan bob Dydd Sadwrn a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ar ôl colli y ddwy gêm gyntaf cafodd y tîm cyntaf dymor da a siom ar y diwedd oedd methu cael dyrchafiad yn ôl i'r adran gyntaf o dim ond 7 pwynt. Gorfu yr ail a'r trydydd tîm chwarae gyda nifer fawr o ieuenctid, ac er colli mwy nag ennill, roedd hyn yn brofiad da iddynt am y dyfodol.

Tî 1af: Chwarae 16 ennill 12 colli 4. Ail Dîm: Ch 15 e 4 c 11. 3ydd Tîm: ch 14 e 4 c 10.

Gyda'r profiad o chwarae yn nhîmau'r dynion yn siwr yn help profodd y tîmau iau llwyddiant. Yn y Cwpan Ieuenctid llwyddwyd i ennill y grŵp ac yna trechu Carew yn y rownd gyn derfynol. Cafwyd gêm dda yn erbyn Hook yn y rownd derfynol a chwaraewyd dros dau fatiad. Cafwyd cyfle i ennill ond yn y diwedd colli fu'r hanes o dim ond 33 rhediad yn erbyn tîm cryf iawn.

Llwyddodd y tîm dan 15 hefyd ddod o'r grŵp ac yna trechu Neyland yn y rownd gyn derfynol. Tîm cryf o ardal Kilgetty oedd y gwrthwynebwyr yn y rownd derfynol. Er dim ond sgorio 87 wrth fatio fe fowliodd a daliodd y bechgyn yn arbennig o dda i gael Kilgetty allan am 52. Hendygwyn felly yw Pencampwyr Dan 15 Sir Benfro am 2022. Dyfarnwyd Charlie Bujega, capten Hendygwyn, yn chwaraewr y gêm wrth iddo sgorio 26 a cymeryd 2 wiced. Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn a diolch hefyd i'w rhieni am eu cefnogaeth.

Bu'r merched yn chwarae yn Adran 1 Sir Benfro gan orffen yn 4ydd ar ddiwedd y tymor. Mewn gêm hynod o gyffrous, collodd y tîm yn rownd gyn derfynol Cwpan Sir Benfro, gyda dim ond dwy bel i fynd. Bu'r merched iau yn cystadlu yng nghystadleuaeth pel feddal De Cymru er mwyn cael profiad cyn chwarae i'r tîm hŷn.



Tîm Ieuenctid Hendygwyn a gollodd yn rownd derfynol Cwpan Ormond Ieuenctid Sir Benfro.



Tîm Hendygwyn - Pencampwyr dan 15 Sir Benfro

Trefor Evans

Clwb Rygbi Hendygwyn

Mae'r tymor newydd wedi cyrraedd ac mae'r timoedd i gyd wedi chwarae eu gemau cyntaf erbyn hyn.

Tîm Dynion

Cynhaliwyd gêm gyfeillgar yn erbyn Nantyffyllon, y gêm yn gorffen yn gyfartal 12-12. Ciciodd Geraint Jones 4 gôl gosb.

Cwpan Sir Benfro - Colli yn erbyn Hwlfordd o 20 pwynt i 3. Geraint Jones ynicio gôl gosb.

Cynghrair I y Gorllewin - Dechreuodd y gynghrair ar ddydd Sadwrn, Medi 3ydd a colli wnaeth y dynion bryd hynny hefyd, i ffwrdd yn erbyn Felinfoel o 52 pwynt i 3. Dim on dau brop oedd ganddom, aeth popeth yn iawn nes i un o'n chwaraewyr ni gael anaf. Roedd digon o eilyddion gyda Felinfoel ond dim gyda ni yn anffodus Dyma restr y gemau sydd i ddod :-

Medi 10ed - adref erbyn Tregwyr

17eg - gem gwpan adref erbyn Rhydaman

24ain - i ffwrdd erbyn Penfro

Hydref 1af - adref erbyn Llangennech

8fed - i ffwrdd erbyn Yr Hendy

Tîm Menywod

Dechreuodd y tymor ar ddydd Sul, Medi 4ydd, gêm i ffwrdd yn erbyn Ynysddu. Dechrau digon tawel cafwyd i'r gêm, ond ar ol 25 munud, gwnaeth y menywod danio a chwarae'n dda. Bu rhaid cael "uncontested scrums" achos doedd dim props, roedd hyn yn ein siwtio ni achos roedd y merched cyflym yn gallu cael rhwydd hynt i redeg yn amlach. Enillwyd y gêm o 43 pwynt i 6, sgoridd Nat Walsh a Marged Williams ddau gais yr un a Danielle Lawrence, Mari Griffiths ac Emily

parhad ar dudalen 43